Cronfa Loteri Fawr

Cynllun strategol 2006-09

	Medi, 2006
Côd	
Cynllun	© Cronfa Loteri Fawr, 2006
Dyllinio	www.graphicsi.com
Argraffu	
Copïau	Ebost ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk Ffon: 0845 4 10 20 30 Ffôn testun 0845 6 02 16 59 Ein gwefan www.cronfaloterifawr.org.uk
Mynediad	Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael mewn fformatau eraill yn cynnwys print brâs.
Ein hegwyddorion cydraddoldeb	Hyrwyddo hygyrchedd; gwerthfawrogi amrywiaeth diwylliannol; hyrwyddo cymeryd rhan; hyrwyddo cyfleoedd cyfartal; hyrwyddo cymunedau cynhwysol; lleihau anfantais a gwaharddiad.
Rydym yn poeni am yr amgylchedd	Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ceisio lleihau ei heffaith negyddol ar yr amgylchedd ac mae'n defnyddio adnoddau gwirioneddol gynaliadwy yn unig.
Ein gweledigaeth	Rydym wedi'n hymrywmo i ddod a gwir welliannau i gymunedau ac i fywydau'r bobl fwyaf anghenus.
Ein gwerthoedd	Rydym wedi adnabod saith gwerth sy'n sail i'n holl waith:tegwch; mynediad hawdd; ffocws strategol; cynnwys pobl; arloesi; galluogi; ychwanegol at y llywodraeth. Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi ymroi i werthfawrogi amrywiaeth ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal, fel dyfarnwr grantiau a chyflogwr. Nod y Gronfa Loteri Fawr yw gweithredu'n gynhwysol i sicrhau fod ymgeiswyr a deiliaid grantiau, budd-ddeiliaid, ceiswyr swyddi a'n staff yn cael eu trin yn deg. Cronfa Loteri Fawr yw'r enw a ddefnyddir gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd a Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol (a oedd yn dosbarthu grantiau dan enw'r Gronfa Gymunedol) wrth weithredu ar y cyd.

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol

Awarding funds from
The National Lottery®

Cynnwys

1. Rhagair gan y Cadeirydd 2

2. Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr 4

3. Fframweithiau ariannu a rhaglenni newydd 15

4. Arian ar gyfer rhaglenni newydd 2006-09 30

5. Costau gweithredu 2007-09 38

Atodiad A: Cyfeiriadau Polisi Dros Dro Newydd - Cyfeiriadau Polisi Cyffredinol, Lloegr, Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban 40

Atodiad B: Themâu a Chanlyniadau- Lloegr, Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban 51

Rhestr tablau

Tabl 1 Y Gronfa Loteri Fawr – 2009 Datganiad Cyrchfan 14

Tabl 2 Cyllideb grant ar gyfer 2006-07 a chyllidebau dros dro ar gyfer 2007-08 a 2008-09 – fesul gwlad 32

Tabl 3 Amcangyfrifon incwm – cyfrifwyd o ragamcaniad yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ym mis Rhagfyr 2005 35

Tabl 4 Rhagolygon llif arian – achos canolog 36

Tabl 5 Rhagolygon llif arian – y darlun gwaethaf allai ddigwydd 37

Tabl 6 Arbedion a nodwyd 39

Tabl 7 Rhaglenni newydd

Tabl 8 Cyllideb grant ar gyfer 2006-07 - fesul gwlad

Tabl 9 Gwariant cyfalaf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2007

Siart

Siart 1 Cronfa Loteri Fawr - Siart strwythurol

Rhestr o graffiau

Ffigwr 1 Costau craidd yn ol

1. Rhagair gan y Cadeirydd

Rhwng 2005 a 2009 mae'r Gronfa Loteri Fawr yn disgwyl dyrannu dros £2.6 biliwn. Bydd ein Cynllun Strategol yn llywio ein gwaith yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n amlinellu'r hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yma ac yn dangos yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud gyda'r arian sydd ar gael gennym. Yn anad dim, rwy'n gobeithio'i fod yn dangos y gwahaniaeth y bydd ein harian yn ei wneud i gymunedau ar draws y DU.

Daw'r ddogfen hon ar amser pwysig i'r sefydliad. Cawsom ein sefydlu ym mis Mehefin 2004 o ganlyniad i uniad gweinyddol dau o gyrff dosbarthu'r Loteri, sef y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol. Mae deddfwriaeth wedi'i sefydlu i roi sylfaen cliriach a mwy cadarn i'r uniad gweinyddol hwn ac i'n galluogi i weithredu fel sefydliad gwirioneddol unedig.

Rydym eisoes wedi cyflawni llawer yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. O'r cychwyn cyntaf, cytunodd fy Mwrdd ar ddatganiad o genhadaeth sy'n crynhoi prif bwrpas y Gronfa Loteri Fawr: dod â gwir welliannau i gymunedau ac i fywydau pobl sydd fwyaf mewn angen. Rydym wedi datblygu gwerthoedd cyfundrefnol sy'n cefnogi'r genhadaeth hon. Rydym wedi cynnal ymgynghoriadau ar sut y dylai'r Gronfa Loteri Fawr ddarparu ei harian ac rydym wedi ymgynghori ar yr hyn y dylem ei ariannu. Yn bwysicach na dim, o ganlyniad i rhai blynyddoedd o weithgarwch dwys, rydym bellach wedi lansio'r rhan fwyaf o raglenni y byddwn yn eu darparu hyd 2009.

Er hyn, mewn sawl ffordd, nawr mae'r gwaith caled yn dechrau o ddifrif. Rydym yn ymrwymedig i wneud yn siŵr fod y Gronfa Loteri Fawr yn ariannwr gwirioneddol ddeallus. Golyga hyn bod rhaid i ni edrych ar sut y gall ein hariannu fod yn strategol yn ogystal ag ymateb i ofynion y cymunedau. Golyga hyn y bydd rhaid i'r ariannu fod yn ddigon hyblyg i alluogi prosiectau i gynnal eu gwaith i'r dyfodol. Yn ogystal â hyn, golyga fod rhaid i ni ddysgu o'r hyn rydym wedi'i wneud yn y gorffennol i sicrhau fod cael arian gan y Loteri mor syml â phosibl. Yn y pen draw daw arian y Loteri ar gyfer achosion da oddi wrth y bobl sy'n prynu tocynnau'r Loteri ledled y DU. Rydym yn dymuno gwneud y Gronfa Loteri Fawr yn sefydliad y mae'r cyhoedd a'n budd-ddeiliaid yn teimlo'n rhan ohono; un y maent yn gwybod amdano, yn poeni amdano ac yn ei gefnogi.

Rwy'n gobeithio y byddwch yn gweld cwmpas yr hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yma wrth i chi ddarllen y cynllun hwn. A gobeithiaf eich bod yn cytuno y bydd y Gronfa Loteri Fawr yn sefydliad newydd sy'n gwneud gwahaniaeth mawr.

4ft

2. Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr

2.1 Trosolwg

Hwn yw Cynllun Strategol cyntaf y Gronfa Loteri Fawr yn dilyn uniad gweinyddol y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol ar 1 Mehefin 2004. Mae'n cwmpasu'r cyfnod o Ebrill 2006 i fis Mawrth 2009.

Mae'r Cynllun Strategol yn ddogfen bwysig oherwydd ei bod yn amlinellu pwy ydym ni, ble rydym ni nawr a ble rydym yn gobeithio bod yn 2009.

i. Mae ein fframwaith deddfwriaethol, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd yn disgrifio pwy ydym ni a'r hyn rydym yn ei gynrychioli. Maent yn ein gwahaniaethu oddi wrth gyrff ariannu eraill.

ii. Mae ein prif gyraeddiadau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn sefydlu ble rydym ni ar ddechrau'r Cynllun Strategol hwn.

iii. Mae ein cyfeiriadau polisi statudol, ein hymgynghoriadau a'n datganiad cyrchfan newydd yn amlinellu ble rydym yn dymuno bod yn 2009.

iv. Mae ein fframweithiau ariannu a'n rhaglenni newydd yn esbonio'r gwahaniaeth rydym yn gobeithio'i wneud i gymunedau ac i fywydau'r bobl sydd mewn fwyaf o angen.

v. Mae ein Cynllun Corfforaethol blynyddol yn amlinellu'r hyn y byddwn yn ei wneud eleni i symud tuag at ein nodau ar gyfer 2009.

Mae Cynllun Corfforaethol 2006-07 ar gael yn Atodiad C y ddogfen hon. Mae'n cynnwys ein hamcanion corfforaethol a dangosyddion perfformiad allweddol yn ogystal â chyllidebau ariannu a gweithredu ar gyfer 2006-07.

Yn ystod cwrs ein Cynllun Strategol tair blynedd, bydd ein Cynllun Corfforaethol yn cael ei osod yn flynyddol gan adlewyrchu'n hamcanion, ein blaenoriaethau a'n hadnoddau a bydd ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn cofnodi'n perfformiad wrth gwrdd â'r amcanion hyn.

2.2 Cenhadaeth a gwerthoedd

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gyfrifol am ddosbarthu hanner yr arian a godir gan y Loteri Genedlaethol ar gyfer achosion da, gan roi cyllideb o tua £630 miliwn y flwyddyn i ni. Ein cenhadaeth yw: **sicrhau gwelliannau gwirioneddol i gymunedau ac i fywydau'r bobl sydd mewn mwyaf o angen.**

Er mwyn cyflawni'r diben hwn, rydym wedi nodi saith o werthoedd corfforaethol sy'n tanategu'n holl waith. Dyma'r gwerthoedd:

i. **Tegwch** – sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth wraidd ein gwaith.

i **Hygyrchedd** – ei gwneud yn haws i gyrchu'n harian a darparu help i'r rheiny sy'n gwneud cais am grantiau ac yn derbyn grantiau.

iii **Ffocws strategol** – gweithio mewn partneriaeth ac ymuno â strategaethau presennol, datblygu rhaglenni sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau a'r gwahaniaeth maent yn eu gwneud i gymunedau.

iv **Cynnwys pobl** – cynnwys cymunedau lleol yn ein gwaith a sicrhau fod y cyhoedd yn gwybod am ein gwaith ac yn poeni amdano.

v **Arloesedd** – adeiladu rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth, rhannu'r hyn rydym yn ei ddysgu ac ystyried ffyrdd newydd o wneud grantiau.

vi **Galluogi** – gweithio gyda chymunedau, partneriaid ac arianwyr eraill er mwyn helpu i sicrhau newidiadau parhaol.

vii. **Yn ychwanegol at y Llywodraeth** – dylai ein hariannu fod ar wahân i wariant y Llywodraeth, ac ychwanegu gwerth.

Rydym hefyd wedi ymgynghori'n eang gyda staff i sefydlu'n gwerthoedd mewnol o ran atebolrwydd, gwerthfawrogi pobl, gwaith tîm a rhagoriaeth gwasanaeth. Mae'r gwerthoedd hyn yn mynegi'r math o gyflogwr mae'r Gronfa Loteri Fawr yn bwriadu bod a'r cyfraniad a wneir gan ein staff.

Er mwyn darparu'n cenhadaeth a'n gwerthoedd, rydym yn ymrwymedig i fod yn sefydliad newydd a gwahanol – yn ariannwr deallus, sy'n canolbwyntio ar fuddiolwyr a chanlyniadau yn hytrach nag ar sectorau neu fathau o sefydliad (gweler 2.4 isod).

Mae'r Gronfa Loteri Fawr, fel holl gyrff dosbarthu eraill y Loteri, wedi'i chreu gan ddeddfwriaeth (gweler 2.5 isod). O ganlyniad i'r statws hwnnw, rydym wedi datblygu perthynas briodol gyda'r Llywodraeth, sy'n amlinellu'n fframwaith strategol (dibenion, themâu a chanlyniadau - gweler 3.1. isod) yn iawn. Rydym yn gyfrifol am ddatblygu'r rhaglenni ariannu, pennu peirianwaith darparu a gwneud penderfyniadau ar ddulliau ariannu.

Mae'r berthynas gytbwys a phriodol hon hefyd yn cael ei hadlewyrchu yn ein seithfed gwerth, parthed ychwanegolrwydd. Yn ddiweddar, cytunodd dosbarthwyr y Loteri yn Lloegr a ledled y DU ar fersiwn estynedig o hyn gyda'r Llywodraeth pan basiwyd y ddeddfwriaeth – "Mae arian y Loteri ar wahân i wariant y Llywodraeth ac yn ychwanegu gwerth. Er nad yw'n cymryd lle arian y Trysorlys, ble bo'n briodol, mae'n cyd-fynd â rhaglenni, polisïau ac ariannu'r Llywodraeth a rhaglenni eraill."

Mae'r diffiniad hwn yn rhoi blas positif i ychwanegolrwydd, gan bwysleisio manteision cyfatebolrwydd a phartneriaeth ar draws sectorau.

2.3 Cyraeddiadau allweddol o Ebrill 2004 i fis Mawrth 2006

Cyn i mi rannu'n cynllun ar gyfer y tair blynedd nesaf, hoffwn bwyso a mesur yr hyn rydym wedi'i gyflawni yn ystod y ddwy flynedd flaenorol o drawsnewid. Rwy'n falch o ddweud ein bod wedi cyflawni cryn dipyn yn erbyn cefndir ansicr yr uniad ac ailstrwythuro, gan osod sail gadarn i'r Gronfa Loteri Fawr droi'n ariannwr newydd, gwahanol a gwell, gan greu gwir welliannau i gymunedau ac i fywydau'r bobl sydd mewn mwyaf o angen.

Yn dilyn llwyddiant uniad gweinyddol y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol ym mis Mehefin 2004 i ffurfio'r Gronfa Loteri Fawr, rydym wedi sefydlu strwythur rheolaethol newydd, gan gynnwys Bwrdd sy'n gyfrifol am y ddau sefydliad, am ddatblygu cenhadaeth newydd a datganiad o werthoedd, sydd wedi cymhathu staff i'r strwythur dros dro, a gweithredu polisïau cydlynol sydd wedi alinio'n hadnoddau ymhellach i ddarparu'n busnes newydd. Er enghraifft, rydym wedi datblygu'r fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol, strategaeth AD a strategaeth TG i'n helpu i gyflenwi'n Cynllun Strategol.

Yn sgil yr uniad, bu'r Bwrdd hefyd wrthi'n adolygu sut y gellid datblygu a darparu'n busnes yn y dyfodol. Yn ystod yr haf 2004, penderfynwyd mai'r strwythur gorau ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr yn y dyfodol fyddai cael swyddfa lai yn Llundain, dwy ganolfan weithredu yn Newcastle a Birmingham a naw swyddfa ranbarthol lai, a'u ffocws wedi newid, yn ogystal â swyddfeydd integredig, wedi'u hailstrwythuro yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Bydd y strwythur newydd yn ein galluogi i ddarparu gwell gwasanaethau cwsmeriaid gyda pwyntiau ffocws mynediad i ymgeiswyr allu cyrraedd 50 y cant o arian y Loteri; mwy o bwyslais ar allgymorth a chefnogaeth i ymgeiswyr grantiau; a dull mwy strategol sy'n cyd-fynd â pholisïau, rhaglenni ac ariannu cenedlaethol a lleol. Yn y tymor canolig, bydd y strwythur newydd hefyd yn lleihau ein costau rhedeg 10-20 y cant, fydd yn ein galluogi i wario mwy o'n harian ar ariannu rhaglenni.

Hyd yma, rydym wedi llwyddo i integreiddio ac ailstrwythuro'r swyddfeydd yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru, wedi agor y ganolfan weithredu yn Newcastle ac wedi ailffocysu'r swyddfeydd rhanbarthol fydd nawr yn gyfrifol am allgymorth, mewnbwn polisi rhanbarthol a gweithio mewn partneriaeth. Rydym yn disgwyl i'r ganolfan weithredu agor yn Birmingham erbyn diwedd 2006. O ganol 2006, byddwn yn dechrau trosglwyddo rhai o'r swyddogaethau sydd wedi'u lleoli yn Llundain ar hyn o bryd i Newcastle a Birmingham.

Ers mis Ionawr 2005, roedd Comisiwn y Mileniwm wedi'i gyd-leoli gyda'r Gronfa Loteri Fawr yn Llundain fel cam cyntaf tuag at basio'i gyfrifoldebau i ni. Pan fydd y Ddeddf Loteri Genedlaethol 2006 yn dod i rym, bydd Comisiwn y Mileniwm yn peidio â bod a bydd y Gronfa Loteri Fawr yn ymdrin â'r holl faterion fydd yn codi o'u rhaglenni, gan gynnwys monitro ôl-gwblhau. Yn ogystal â hyn, bydd NESTA a'r dosbarthwr Loteri Olympaidd yn ymuno â ni yn ein hadeilad yn Llundain, gan roi'r cyfle i ni weithio gyda'n gilydd a rhannu gwasanaethau.

Yn erbyn y gefnlen hon o newid, rydym wedi cynnal dau ymgynghoriad mawr ledled y DU gyda'n budd-ddeiliaid a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol ar sut y gallwn ddarparu'n hariannu a beth y dylem ei ariannu. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'n hymgynghoriadau, rydym wedi gallu dylanwadu ar gyfeiriad y polisïau newydd a gyhoeddwyd gan y llywodraeth a dylunio fframweithiau a rhaglenni ariannu newydd sydd werth tua £2.6 biliwn ar gyfer 2006-09. Adroddir yn fanylach ar ein hymgynghoriadau a'r canfyddiadau yn ddiweddarach yn y bennod hon.

Mae'r fframweithiau a'r rhaglenni newydd yn dangos ein hymrwymiad i fod yn ariannwr mwy effeithiol a deallus drwy fabwysiadu dull portffolio cymysg tuag at ariannu, yn strategol ac yn ôl y galw; sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yn adfer costau llawn ar gostau cyffredinol dilys, a mwy o hyblygrwydd yn hyd ein hariannu. Rydym hefyd wedi sefydlu strategaeth gwerthuso, ymchwil a dysgu ar gyfer 2006-09 i wella'n heffeithiau a phrosesau ariannu; i hyrwyddo rhannu dysgu o'r fath yn ehangach i wella arferion ac i ddylanwadu ar bolisïau; ac i gefnogi atebolrwydd cyhoeddus.

At hyn, rydym wedi creu fframwaith i ddatblygu rhaglenni newydd. Ers yr haf 2005, rydym wedi lansio nifer o'n rhaglenni ariannu newydd. Ymhlith y rhaglenni sydd ar gael ledled y DU y mae Miliynau'r Bobl, Creu Cof Byw, Cymunedau Rhyngwladol (gan gynnwys cronfeydd i helpu gyda'r broses o ailadeiladu wedi'r Tswnami). Ymhlith y rhaglenni yn Lloegr y mae Changing Spaces, Reaching Communities, Parks for People, Building and Sustaining Infrastructure Services (BASIS) a Children's Play. Hefyd, rydym wedi lansio'r rhaglen Pawb a'i Le yng Nghymru a rhaglen yr Alban Investing in Ideas. (Bydd y rhaglenni newydd ar gyfer Gogledd Iwerddon yn cael eu lansio yn ystod 2006-07). Mae'r rhaglenni hyn yn ychwanegol at y Gronfa Bobl Ifanc a lansiwyd yn 2004-05 i hyrwyddo lles a datblygiad personol pobl ifanc ar draws y DU. Mae manylion ein holl raglenni ariannu newydd ar gael ym mhennod tri.

Wrth lansio Miliynau'r Bobl, rydym wedi cynnwys y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau. Bu'n llwyddiant enfawr, gyda 178,000 o bobl yn pleidleisio dros eu hoff brosiect Miliynau'r Bobl drwy Newyddion Rhanbarthol ITV. Ers hynny, rydym wedi adolygu'r ffyrdd mae holl ddosbarthwyr y Loteri'n cynnwys y cyhoedd, a bydd hyn yn hysbysu'r ffordd y byddwn yn gwneud hyn yn ein rhaglenni newydd. Rydym am i'r sefydliad fod yn un y mae'r cyhoedd yn teimlo'n rhan ohono, y maent yn ei adnabod ac yn poeni amdano.

Mewn ymateb i'r adborth a gafwyd, rydym hefyd wedi ail-lansio'r rhaglen Arian i Bawb (A4A) drwy ddyblu'r terfyn uchaf o £5,000 i £10,000 ar gyfer Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Mae'r rhaglen Arian i Bawb yn cael ei hariannu ar y cyd gan y Gronfa Loteri Fawr, Cyngor y Celfyddydau, Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Sport England. Yn sicr, bydd fersiwn newydd y rhaglen yn cynyddu'r effaith bellgyrhaeddol y mae'n ei chael yn barod ym maes y celfyddydau, chwaraeon, treftadaeth a gweithgareddau cymunedol, yn ogystal â hyrwyddo addysg, yr amgylchedd ac iechyd mewn cymunedau lleol.

Yn ogystal â rheoli'r mentrau a'r heriau newydd hyn, rydym yn dal ati gyda rhaglenni presennol y ddau sefydliad etifeddiaeth drwy gynnal gwasanaeth da i'n hymgeiswyr, deiliaid grantiau, partneriaid allweddol a budd-ddeiliaid. Er enghraifft, mae'r rhaglen Cyfleoedd Newydd ar gyfer Addysg Gorfforol a Chwaraeon (NOPES) yn Lloegr, a lansiwyd yn 2001, wedi bodloni ei dargedau ariannu er gwaethaf cymhlethdod y rhaglen, sy'n cynnwys adnewyddu a gwaith adeiladu newydd.

Rydym yn ymrwymedig i ddod â manteision ariannu achosion da'r Loteri i gymunedau mewn ffordd mor effeithiol ac effeithlon â phosibl drwy leihau balansau Cronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi rhoi £1.4 biliwn ac wedi gwario £1.6 biliwn o arian rhwng Ebrill 2004 a Mawrth 2006. Rydym hefyd yn gwneud ein gorau i fod yn sefydliad atebol drwy barhau i gryfhau ein mesurau gwrth-dwyll.

Mae cynnal gwasanaeth da i'r cwsmeriaid yn parhau i fod ymhlith prif nodau'r sefydliad yn ystod yr uniad a'r ailstrwythuro. Rydym yn ymroi i drin ein cwsmeriaid yn deg ac i ymdrin â'u hymholiadau mewn ffordd mor agored, effeithlon ac effeithiol â phosibl. Gan gofio hyn, mae'r Gronfa Loteri Fawr, gyda dosbarthwyr eraill y Loteri, wedi datblygu siarter gwasanaethau cwsmeriaid a phroses cwynion i sicrhau bod safon ein gwasanaethau cwsmeriaid yn gyson drwodd a thro. Mae ein polisi mynediad at wybodaeth newydd, polisi cyfle cyfartal ac egwyddorion yn atgyfnerthu'n hymroddiad i gydraddoldeb, hygyrchedd a thryloywder.



Mae gweithio mewn partneriaeth bob amser yn uchel ar ein hagenda. Rydym wedi parhau i chwarae rôl allweddol mewn gwaith traws-ddosbarthu, fel lansio llinell gymorth unigol a gwefan ar y cyd i'r cyhoedd allu gwneud ymholiadau ynglŷn â holl arian y Loteri, gan hyrwyddo brand y Loteri a dangos ei fanteision drwy Ddiwrnod y Loteri Genedlaethol a Gwobrau'r Loteri Genedlaethol, a rhannu arferion da wrth ariannu prosiectau cyfalaf mawr. Hefyd, rydym wedi trafod dulliau o fod yn ariannwr deallus gyda sefydliadau fel Sefydliad Lloyds-TSB, y Sefydliad Cymdeithasau Elusennol a'r Sefydliad Cymorth Elusennol.

Gobeithio fod y crynodeb hwn o'n sefyllfa ar hyn o bryd yn dangos faint rydym wedi'i gyflawni yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r cyraeddiadau hyn wedi digwydd o ganlyniad i waith caled a phroffesiynoldeb ein Bwrdd, aelodau'r Pwyllgor a'r staff. Yn ystod y blynyddoedd nesaf, byddwn yn adeiladu ar sail y llwyddiannau hyn i sicrhau bod y Gronfa Loteri Fawr yn parhau i wneud gwahaniaeth mawr.

2.4 Ymgynghoriadau, fframweithiau a rhaglenni newydd

Ar draws y DU, cynhaliodd y Gronfa Loteri Fawr ddau gam ymgynghori ar ei waith yn 2004-05. Roedd yr ymgynghoriadau'n cynnwys prif fudd-ddeiliaid, gan gynnwys aelodau o'r sector gwirfoddol, cyrff statudol, cyrff cyhoeddus anadrannol ac aelodau'r cyhoedd.

Ymgynghoriad cam un

Lansiwyd ein hymgynghoriad cam un ar draws y DU ym mis Mehefin 2004. Prif bwrpas yr ymgynghoriad cyntaf hwn oedd canolbwyntio ar sut y dylai'r Gronfa Loteri Fawr weithio, yn hytrach nag ar ei flaenoriaethau a'i raglenni ariannu. Mewn ymateb i hyn, bu i ni gyhoeddi chwe phrif gam y byddem yn eu cymryd.

1. Mabwysiadu dull portffolio cymysg (strategol mewn ymateb i'r galw) at ariannu, gydag o leiaf draean o'n harian yn llifo trwy ffrydiau ariannu heb eu rhagnodi'n rhy fanwl, sy'n ymateb i'r galw.

2. Cyflwyno mwy o hyblygrwydd o ran hyd ein hariannu.

3. Mabwysiadu'r egwyddor o adfer costau llawn trwy ganiatáu i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol adfer eu holl gostau cyffredinol dilys.

4. Cryfhau ein swyddfeydd rhanbarthol er mwyn cynyddu'r pwyslais ar ddatblygu polisïau, allgymorth, partneriaeth a chysylltiadau allanol.

5. Sefydlu dwy ganolfan weithredu yn Birmingham a Newcastle i sicrhau polisi ariannu cryf ac unedig ac i'w gwneud yn haws i gyrchu arian.

6. Parhau i ariannu prosiectau rhyngwladol ac ymchwil.

Mae'r gweithredoedd allweddol hyn yn adlewyrchu ein hymroddiad i fod yn ariannwr deallus. Golyga ein hymroddiad i adfer costau llawn y byddwn, wrth ariannu prosiect, nid yn unig yn talu'r costau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r prosiect hwnnw ond hefyd yn cyfrannu at gyfran y prosiect o'r costau cyfundrefnol cyffredinol hynny y mae gennym y grym i'w cefnogi.

At hyn, rydym wedi addo rhoi 60-70 y cant o'n harian i sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol a 30-40 y cant i dderbynyddion mewn sectorau eraill. Fodd bynnag, ein prif bryder yw'r canlyniadau y bydd ein hariannu'n eu cyflawni.

Gyda help budd-ddeiliaid o'r sector gwirfoddol a chymunedol, rydym wedi bod yn ystyried y ffordd orau i fonitro, archwilio ac adrodd yn erbyn yr ymgymeriad 60-70 y cant. Wrth ddiffinio'r 60-70 y cant o arian fydd yn mynd i'r sector gwirfoddol a chymunedol, rydym yn bwriadu defnyddio diffiniad y Trysorlys o'r "trydydd sector" yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon: "Sefydliadau sy'n annibynnol ar y wladwriaeth, gyda chymhelliant sy'n tarddu o werthoedd a dibenion cymdeithasol yn hytrach na cheisio elw, ac a fydd yn ail-

fuddsoddi unrhyw arian sy'n weddill yn bennaf er mwyn ceisio cyflawni'r gwerthoedd hyn yn hytrach na'i ddosbarthu'n breifat".

Mae'r sefyllfa ychydig yn wahanol yng Nghymru, gan fod diffiniad cytûn eisoes yn bodoli o sefydliadau gwirfoddol fel rhan o'r Cynllun Sector Gwirfoddol (Adran 114 Deddf Llywodraeth Cymru 1998). Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r sector gwirfoddol wedi cytuno ar hwn yng Nghymru. Byddwn yn defnyddio'r diffiniad hwn yng Nghymru.

Bydd canlyniadau'n harchwiliad i'r ymgymeriad hwn yn cael eu cyhoeddi yn ein Hadroddiad Blynyddol, sy'n cael ei gyflwyno gerbron y Senedd ac mewn dogfen ar wahân sy'n haws ei ddefnyddio. Er y byddwn yn adrodd ar y targed bob blwyddyn, byddwn yn disgwyl bodloni'r ymgymeriad dros gylch oes ein rhaglenni ac o fewn pob gwlad. Rydym yn trafod gyda'r sector gwirfoddol a chymunedol ynglŷn â sut y byddwn yn cyfri, mesur ac adrodd ar yr ymgymeriad hwn. Ymhlith yr enghreifftiau (nid yw'n rhestr lawn) o'r hyn na fyddem yn ei gyfrif o dan yr ymgymeriad 60-70 y cant y mae:

- y sector statudol
- y sector preifat
- busnesau cyfatebol mawr, fel cymdeithasau adeiladu, gan eu bod wedi'u sefydlu er budd eu haelodau uniongyrchol
- pleidiau gwleidyddol
- undebau llafur
- prifysgolion a sefydliadau addysg bellach
- ysgolion elusennol ac ysgolion a gynhelir â grant
- clybiau chwaraeon nad ydynt er budd y cyhoedd
- cymdeithasau nad ydynt er budd y cyhoedd
- Ymddiriedolaethau GIG a chyrff cyhoeddus anadrannol.

Ymgynghoriad cam dau

Roedd yr ail gyfnod o ymgynghori'n canolbwyntio ar yr hyn y dylem ni ei ariannu a'r hyn ddylai fod yn flaenoriaethau i ni. Mae ein canlyniadau cyffredinol a'r rhaglenni a blaenoriaethau ariannu'n wahanol ym mhedair gwlad y DU, felly cynhaliwyd ymgynghoriadau ar wahân, oedd yn cyfateb i'w gilydd yn fras ym mhob gwlad. Hefyd, arweiniodd yr ymgynghoriad cam dau at ffurfio'n prif ganlyniadau, oedd yn sail i'r rhaglenni ariannu. Trafodir y rhain yn fanylach ym mhennod tri.

Dyraniadau ariannu

Crëwyd y fformiwla ar gyfer dyrannu arian i'r pedair gwlad ym 1995, pan sefydlwyd y Gronfa Gymunedol, a chafodd ei seilio ar boblogaeth oedd yn dioddef amddifadedd. Bryd hynny, nid oedd y mesurau amddifadedd cyffredinol sy'n bodoli ym mhob gwlad heddiw ar gael. Defnyddiodd y Gronfa Gymunedol ystadegau poblogaeth y Cyfrifiad ac yna cymhwysodd yr ystod dangosyddion amddifadedd i'r figurau hynny. Gwnaethpwyd y dyraniadau cyllido ar gyfer y gwledydd yn seiliedig ar ffigyrau poblogaeth, wedi'u pwysoli gan fynegai oedd yn cyfuno ffigurau ar gyfer Cynnyrch Mewnwladol Crynswth y pen gyda gwariant y Llywodraeth ar fudd-daliadau nawdd cymdeithasol (heb

gynnwys pensiwn ymddeol).
Lleihaodd hyn ganran yr arian oedd ar gael i Loegr, a chynyddodd y dyraniadau i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn seiliedig ar boblogaeth yn unig, byddai gan Loegr hawl i 83 y cant o'r arian. Ym 1998, cafodd y fformiwla ei ddefnyddio gan y Llywodraeth yn y cyfarwyddiadau polisi statudol a roddodd i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Bellach, mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi'i fabwysiadu.

Y Gemau Olympaidd

Bydd nifer o'n rhaglenni ar draws y DU yn cefnogi prosiectau yn y gymuned fydd yn gysylltiedig â gemau Olympaidd 2012, a'n gobaith yw y byddwn yn gweithio'n agos gyda dosbarthwyr eraill yn Lloegr a'r DU, Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd, Pwyllgor Trefnu Gemau Olympaidd Llundain, yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ac eraill i archwilio i sut y gall ein rhaglenni newydd gyfrannu at y gweithgareddau adfywio, cynnwys cymunedau a diwylliannol y bydd y Prosiect Olympaidd yn eu hyrwyddo.

Arian nad yw'n arian y Loteri

Bydd y ddeddfwriaeth newydd yn rhoi grym i ni ddosbarthu arian nad yw'n arian y Loteri. Dim ond ble gall ein cyfranogiad wneud gwahaniaeth gwirioneddol y byddwn yn gwneud hyn, er enghraifft wrth uno gwahanol ffrydiau ariannu, a ble mae dibenion yr ariannu yn cyd-fynd â'n dibenion ein hunain.

2.5 Deddfwriaeth newydd

Cafodd Deddf y Loteri Genedlaethol 2006 ei phasio gan y Senedd ac mae'n sefydlu'r Gronfa Loteri Fawr fel corff statudol yn ei rinwedd ei hun. Bydd yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol fel y dosbarthwyr Loteri presennol. Bydd Bwrdd newydd fydd yn cynnwys 12 aelod yn cael ei sefydlu gan gynnwys Cadeirydd a phedwar aelod o'r Bwrdd fydd yn cadeirio pwyllgorau'r gwledydd sy'n cael eu sefydlu o dan y ddeddfwriaeth. Hefyd, byddant yn cynrychioli buddiannau pedair gwlad y Deyrnas Unedig ar y Bwrdd. Bydd gan saith aelod arall y Bwrdd rôl gyffredinol ar y Bwrdd heb unrhyw gyfrifoldebau daearyddol.

Bydd y Bwrdd yn gyfrifol am gyfeiriad strategol cyffredinol y Gronfa Loteri Fawr, a bydd y pwyllgorau gwlad yn gyfrifol am sicrhau bod arian ar gael trwy'r drefn ariannu newydd.

Bydd y Bwrdd yn derbyn Cyfarwyddiadau Polisi ac Ariannol gan yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon. Bydd Cyfarwyddiadau Polisi'n cwmpasu'r materion cyffredinol i'w hystyried, yn ogystal â darparu ar gyfer y rhaglenni ariannu hynny sy'n cwmpasu'r DU gyfan. Bydd yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon hefyd yn cyhoeddi Cyfarwyddiadau Polisi ar gyfer rhaglenni Lloegr, tra bydd y Gweinyddiaethau Datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi Cyfarwyddiadau Polisi i'r Bwrdd a'r pwyllgorau gwlad ar gyfer rhaglenni yn y gwledydd hynny.

Bydd y Cyfarwyddiadau Polisi cyffredinol yn nodi'r tair thema lefel uchel sy'n berthnasol ar draws y Deyrnas Unedig, tra bo Cyfarwyddiadau Polisi pob gwlad yn nodi'r canlyniadau a blaenoriaethau ariannu fydd yn tanategu'r ariannu y bydd y Gronfa Loteri Fawr yn ei roi i bob gwlad.

Mae'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gweinyddiaethau Datganoledig wedi cyhoeddi Cyfarwyddiadau Polisi dros dro yn barod i'r ddau endid cyfreithiol presennol, yn dilyn ymgynghoriadau yn 2005. Mae'r Cyfarwyddiadau dros dro hyn wedi'n galluogi i ddatblygu a lansio'r ystod newydd o raglenni ariannu ym mhob gwlad (gweler Atodiad A).

Er bod Deddf 2006 wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol, ni fydd y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Mesur yn dechrau ar unwaith, hyd oni fydd y Bwrdd newydd wedi'i recriwtio ac yn weithredol. Y gobaith yw y bydd y Bwrdd yn ei le ac y bydd y Gronfa Loteri Fawr yn dechrau ar 1 Rhagfyr 2006. Hyd hynny, bydd y Bwrdd cydffiniol yn parhau mewn bodolaeth, er y bydd 12 o'i aelodau'n ffurfio Bwrdd Cronfa Loteri Fawr cysgodol o 1 Awst 2006 at y diben penodol o ymgynghori'n ffurfiol â'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ar Drefn Seneddol a Chyfeiriadau Polisi'r Gronfa Loteri Fawr. Yn ogystal â hyn, bydd y Bwrdd cysgodol yn goruchwylio'r broses o recriwtio aelodau pwyllgorau'r gwledydd.

2.6 Datganiad Cyrchfan 2009

Rydym wedi defnyddio'r dull Cerdyn Sgorio Cytbwys wrth ddatblygu ein cynllunio strategol a chorfforaethol. Mae'r Cerdyn Sgorio Cytbwys yn fodel rheoli perfformiad.

Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar 'Ddatganiad Cyrchfan' (Tabl 1) sy'n disgrifio sut y bydd Cronfa Loteri Fawr lwyddiannus yn edrych yn 2009. Mae'n ffurfio'n fframwaith strategol a byddwn yn gweithio tuag at wireddu'r datganiadau hyn yn ystod y tair blynedd nesaf.

Mae Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2006-07 yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn bresennol ac mae hwn ar gael yn Atodiad C y ddogfen hon.

Tabl 1 Y Gronfa Loteri Fawr – Datganiad cyrchfan 2009

Amgylchedd ac adnoddau awdurdodi

AE/A1 Rydym yn gweithredu trefniadau dosbarthu a rheolaeth ddatganoledig effeithiol yn Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon gyda chyfrifoldeb cyllidebol llawn o fewn fframwaith strategol y cytunwyd arno gan y Bwrdd.

AE/A2 Mae gennym berthnasau cynhyrchiol gyda'r budd-ddeiliaid.

AE/A3 Mae'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, y Trysorlys a'r llywodraethau datganoledig yn ymddiried ynom i fod yn fodel corff sector cyhoeddus mewn rheolaeth a rheolaeth ariannol.

AE/A4 Rydym yn cael ein hadnabod am ein llwyddiant wrth reoli ac ehangu brand y 'Loteri'.

AE/A5 Rydym wedi lleihau ein balans Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol i £435 miliwn.

AE/A6 Rydym yn dosbarthu rhwng 60 y cant a 70 y cant o'n harian yn uniongyrchol i'r sector Gwirfoddol a Chymunedol a 30 y cant i 40 y cant i sectorau eraill.

AE/A7 Rydym wedi torri costau gweithredu 20 y cant o lefelau 2003-04 erbyn 2008.

AE/A8 Rydym yn ailfuddsoddi rhan o'n harbedion costau yn weithredol i wella'n perfformiad gwneud grantiau.

AE/A9 Rydym yn dosbarthu arian nad yw'n arian y Loteri i gyd-fynd â'n portffolio rhaglen.

Trefn a diwylliant

TaD1 Rydym yn darparu gwasanaethau cwsmeriaid effeithiol, ardderchog a hyblyg.

TaD2 Mae gennym batrymau gwaith hyblyg sy'n darparu amgylchedd gwaith o ansawdd uchel ac yn rhoi cydbwysedd gwaith:bywyd i'r staff.

TaD3 Mae ein dull o weithredu tuag at gydraddoldeb yn bodloni'n goblygiadau statudol yn weithredol ac yn esblygu i fodloni anghenion newidiol cymdeithas ac yn dangos arfer gorau.

TaD4 Rydym wedi datblygu'n "sefydliad sy'n dysgu".

TaD5 Mae ein diwylliant yn seiliedig ar egwyddor atebolrwydd cyhoeddus.

TaD6 Mae ein staff yn uniaethu gyda'n cenhadaeth ac arweinyddiaeth ac maent yn hapus i weithio yn y Gronfa Loteri Fawr.

TaD7 Mae ein staff yn llawn cymhelliant, yn hyblyg, ac yn meddu ar y sgiliau priodol ac wedi'u hyfforddi'n addas.

TaD8 Rydym yn cefnogi'r Bwrdd i'w wneud yn gorff sy'n gwneud penderfyniadau effeithiol, gwybodus.

TaD9 Rydym yn gweithio ar y cyd tuag at un cynllun cydlynol o gynlluniau, amcanion a gwerthoedd ym mhob maes o'n busnes.

TaD10 Rydym yn cyfathrebu'n agored ac yn effeithiol gyda'n gilydd a'r holl staff.

TaD11 Mae ein strwythur yn gweddu i'w bwrpas.

TaD12 Mae'r rheolaeth, ar bob lefel, yn gorfforaethol ac yn atebol ac yn darparu arweinyddiaeth gref.

TaD13 Rydym yn dathlu'n llwyddiant ac yn cydnabod ac yn gwobrwyo cyfraniad ein staff.

Perthnasau allanol

PA1 Y Gronfa Loteri Fawr yw'r prif ddosbarthydd 'achosion da' a chanddi ddelwedd gyhoeddus gadarn a phositif.

PA2 Rydym wedi gweddnewid disgwyliadau'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol o arian y loteri trwy weithio mewn partneriaeth ar ddyluniad, datblygiad a phroses gwneud penderfyniadau rhaglenni ariannu.

PA3 Mae'r sectorau rydym yn gweithio â hwy: darpar ymgeiswyr, ymgeiswyr, grantîs a buddiolwyr, yn ein hadnabod fel darparydd rhaglenni ariannu effeithiol sy'n arddangos gwerthoedd.

PA4 Rydym wedi sicrhau bod 75 y cant o'r cyhoedd yn ymwybodol bod arian y Loteri o fudd i achosion da ac wedi gweld cynnydd blynyddol o 5 y cant yn y bobl sy'n dweud "Mae fy nghymuned yn elwa drwy arian y Loteri".

PA5 Mae ein hymgeiswyr a'n deiliaid grantiau yn credu'n bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau, wedi'n hyfforddi'n dda ac yn broffesiynol.

PA6 Rydym yn darparu'n rhaglenni ariannu gydag amrywiaeth o bartneriaid mewn ffordd positif.

PA7 Rydym yn gwneud gwahaniaeth i'r bobl y mae eu bywydau'n cael eu cyffwrdd gan ein gweithgaredd gwneud grantiau ac rydym yn dangos yr effaith yma'n effeithiol i bartneriaid, derbynwyr grantiau a'n staff.

PA8 Rydym yn bartner dylanwadol mewn gwneud a darparu polisïau cenedlaethol/ datganoledig, rhanbarthol a lleol.

Prosesau a galluoedd

PG1 Mae gennym eiddo ac asedau sy'n adlewyrchu ein hanghenion presennol a rhai'r dyfodol.

PG2 Mae gennym fframwaith strwythuredig ac offer effeithiol ar gyfer rhaglenni o ddechreuad polisïau hyd nes caiff ei gyflwyno.

PG3 Rydym wedi mewnosod diwylliant o reoli perfformiad ym mhob maes o'r Gronfa Loteri Fawr.

PG4 Rydym yn dryloyw wrth wneud penderfyniadau ar bob lefel ac rydym yn annog cyfranogiad y cyhoedd.

PG5 Mae gennym reolaeth gorfforaethol gadarn, a thrwy hyn, rydym yn rheoli risg ac yn gwneud ein sefydliad yn fwy effeithlon.

PG6 Mae prosesau ariannu pob rhaglen yn llyfn, syml ac uniongyrchol ac maent mor gyflym, syml a hygyrch â phosibl o ystyried y risg posibl.

PG7 Mae ein hariannu'n hyrwyddo canlyniadau cynaliadwy.

PG8 Mae ein systemau TGCh yn galluogi ein staff i weithio'n hyblyg ac yn effeithiol.

PG9 Mae ein gwasanaethau corfforaethol yn bodloni anghenion ei gwsmeriaid mewnol yn gost-effeithiol.

PG10 Mae ein strategaeth AD yn llwyddiannus wrth recriwtio'r bobl iawn a chanddynt y sgiliau a'r galluoedd angenrheidiol yn ogystal â chadw staff gwerthfawr.

PG11 Rydym yn ymchwilio ac yn datblygu busnes newydd gan gymryd gallu'r sefydliad i ystyriaeth.

3. Fframweithiau ariannu a rhaglenni newydd

Ym mhennod dau, buom yn esbonio sut y mae ein fframwaith a rhaglenni ariannu newydd wedi'u datblygu o ganlyniad i ymgynghori helaeth.

3.1 Y fframwaith strategol

Y cyd-destun ar gyfer ein holl raglenni yw ein cenhadaeth i ddod â gwelliannau gwirioneddol i gymunedau ac i fywydau'r bobl sydd mewn mwyaf o angen.

O ran yr hyn y byddwn yn ei ariannu, nod ein holl raglenni ar draws y DU yw cefnogi tair thema y cytunwyd arnynt gyda'r Llywodraeth a gweinyddiaethau datganoledig:

- cefnogi dysgu cymunedol a chreu cyfleoedd
- hyrwyddo diogelwch a chydlyniad cymunedol
- hyrwyddo lles.

Mae'r tair thema yma'n fwriadol eang ac maent yn ein galluogi i gefnogi ystod eang o raglenni a phrosiectau ym mhob gwlad yn y DU.

Canlyniadau cenedlaethol

Ein nod yw ariannu prosiectau a sefydliadau sy'n gwneud gwahaniaeth. Yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn yw sefydliad neu yr hyn a wna sefydliad, rydym yn canolbwyntio'n arbennig ar yr hyn y mae'r sefydliad yn bwriadu'i gyflawni gyda'n harian, mewn geiriau eraill, canlyniad ein hariannu.

Felly, ym mhob un o wledydd y DU, rydym wedi datblygu tri neu bedwar canlyniad cenedlaethol, y cytunwyd arnynt gyda'r Llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig i gefnogi'n themâu strategol. Mae'r rhain yn esbonio'n fanylach yr hyn y bydd ein hariannu'n ei gyflawni (gweler Atodiad B). Y rhain yw canlyniad ymgynghoriadau ar wahân ym mhob un o wledydd y DU ac felly maent yn wahanol ym mhob gwlad, gan adlewyrchu'r heriau a'r gofynion unigryw yn Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Rhaglenni cenedlaethol

Ein nod yw cyflawni'r canlyniadau hyn drwy ariannu cyfres o raglenni ym mhob gwlad. Mae'r rhaglenni hyn yn rhannu'n ddau faes eang: rhai sy'n ymateb i'r galw a rhai strategol.

Bydd rhaglenni sy'n ymateb i'r galw yn annog sefydliadau a grwpiau i ddod â'u syniadau a'u datrysiadau lleol atom ni i'w hariannu.

Bydd rhaglenni strategol yn canolbwyntio'n fwy ar ganlyniad neu ganlyniadau mwy penodol rydym am i'n hariannu eu cyflawni, er y byddwn yn dal i annog datrysiadau lleol i anghenion lleol.

3.2 Rhaglenni ar gyfer y DU gyfan

Yn ogystal â'n rhaglenni cenedlaethol yn Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, byddwn yn gweithredu nifer fechan o raglenni grant ar draws y DU.

Miliynau'r Bobl

Cyllideb: hyd at £16.5 miliwn

Mae'r rhaglen Miliynau'r Bobl yn ariannu prosiectau sy'n gwella bywydau cymunedau lleol trwy weddnewid yr amgylchedd lleol drwy:

- wneud yr amgylchedd lleol yn lanach, mwy diogel a mwy gwyrdd
- gwella'r amgylchedd naturiol lleol
- gwella dyluniad, ymddangosiad a hygyrchedd cyfleusterau lleol.

Mae hyd at £15 miliwn ar gael i roi grantiau o hyd at £50,000. Mewn partneriaeth â GMTV, bydd grant unigol o hyd at £1.5 miliwn yn cael ei roi. Bydd grant unigol o rhwng £25 miliwn a £50 miliwn yn cael ei roi trwy'r rhaglen Creu Cof Byw (gweler gyferbyn).

Creu Cof Byw

Cyllideb: hyd at £140 miliwn

Nod y rhaglen Creu Cof Byw yw:

- dal dychymyg cymunedau a chynyddu eu hymwneud â'r Loteri
- ysbrydoli cymunedau i weddnewid y mannau y maent yn byw ynddynt, trwy brosiectau cymdeithasol a chymunedol a buddsoddiadau isadeiledd mawr.

Bydd Creu Cof Byw yn rhoi nifer fechan o grantiau o rwng £10 miliwn a £25 miliwn i brosiectau rhanbarthol. Bydd pwyllgor rhaglen yn penderfynu pa brosiectau sy'n llwyddo. Bydd grant unigol o rhwng £25 miliwn a £50 miliwn yn cael ei roi trwy Miliynau'r Bobl i brosiect cenedlaethol neu ranbarthol mawr. Bydd y prosiect llwyddiannus yn cael ei benderfynu gan bleidlais gyhoeddus ar y teledu.

Rhaglen Grantiau Rhyngwladol

Cyllideb: hyd at £60 miliwn

Nod y rhaglen hon yw ariannu prosiectau effeithiol sy'n mynd i'r afael ag achosion tlodi ac amddifadedd a gwneud gwahaniaeth hirdymor i fywydau pobl fwyaf difreintiedig y byd. Bydd y gyllideb flynyddol yn cael ei rhannu'n 50/50 rhwng rhaglenni sy'n ymateb i'r galw a rhai strategol.

Tswnami

Cyllideb: hyd at £12 miliwn

Yn ogystal â'r Rhaglen Grantiau Rhyngwladol, bydd hyd at £12 miliwn yn cael ei ddefnyddio i ariannu mentrau ailadeiladu hirdymor mewn ardaloedd a gafodd eu heffeithio gan y Tswnami.

Ymchwil

Cyllideb: hyd at £25 miliwn

Nod y rhaglen hon fydd dylanwadu ar bolisïau ac arferion lleol a chenedlaethol drwy ariannu cynhyrchiant a lledaenu gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Bydd yn cefnogi ymchwil ar faterion a nodir gan y Sector Gwirfoddol a Chymunedol; cynyddu gallu'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol i ymchwilio i feysydd y mae'n ymddiddori ynddynt; helpu'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol i ddefnyddio a lledaenu ymchwil; cynnwys buddiolwyr a defnyddwyr; helpu i ddatblygu gwell gwasanaethau ar gyfer buddiolwyr; a hyrwyddo partneriaethau rhwng y Sector Gwirfoddol a Chymunedol a'r gymuned ymchwil.

Llefydd i Natur

Cyllideb: hyd at £5 miliwn

Datblygwyd y rhaglen grantiau Llefydd i Natur mewn partneriaeth â'r BBC ac fe'i dyluniwyd i gyd-fynd â'u hymgyrch Llefydd i Natur. Ei nod yw:

- cynyddu cyfranogiad a mynediad at lefydd i natur lleol drwy annog pobl i gymryd mwy o ran gweithgar ynddynt, a thrwy gefnogi gweithgareddau sy'n agored ac yn hygyrch i bawb, ac
- sy'n gwneud gwelliant parhaol i'r amgylchedd lleol drwy gefnogi gweithgareddau sy'n datblygu llefydd i natur neu sy'n helpu i greu a chynnal rhai newydd.

Mae Llefydd i Natur yn cael ei ddarparu mewn dau gam: mae cam un yn canolbwyntio ar gymryd rhan a gwelliannau i fannau anadlu presennol, a chaiff ei lansio ym mis Mehefin 2006. Pwrpas cam dau yw creu llefydd i natur newydd, a chaiff ei lansio ym mis Hydref 2006. Bydd grantiau o rhwng £300 a £10,000 ar gael yn y ddau gam.

3.3 Rhaglenni Lloegr

Mae'r pedwar canlyniad cenedlaethol yn Lloegr fel a ganlyn:

- Bod pobl yn cael gwell cyfleoedd mewn bywyd, gyda gwell mynediad at hyfforddiant a datblygiad i wella'u sgiliau bywyd.
- Cymunedau cryfach, gyda mwy o ddinasyddion bywiog yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'u problemau.

- Gwell amgylcheddau gwledig a threfol, fydd yn haws i gymunedau eu cyrchu a'u mwynhau.
- Pobl a chymunedau iachach a mwy bywiog.

Ein nod yw cyflawni'r canlyniadau hyn drwy gyfres o raglenni sy'n ymateb i'r galw a rhai strategol.

Rhaglenni sy'n ymateb i'r galw

Arian i Bawb

Cyllideb: hyd at £160 miliwn

Cynllun ar y cyd gan y Loteri yw Arian i Bawb sy'n ariannu ystod eang o weithgareddau treftadaeth, elusennol, iechyd, addysgol, amgylcheddol, chwaraeon a'r celfyddydau. Mae grantiau o rhwng £300 a £10,000 ar gael i ariannu prosiectau sy'n cynnwys pobl yn eu cymuned leol. Yn Lloegr, bydd y Gronfa Loteri Fawr yn cyfrannu hyd at £160 miliwn i Arian i Bawb.

'Reaching Communities'

Cyllidebau: hyd at £[illegible]0 miliwn, cyllideb y flwyddyn gyntaf £100 miliwn.

Nod Cyrraedd Cymunedau yw:

- gwneud gwelliannau gwirioneddol i gymunedau ac i fywydau'r bobl hynny sydd mewn fwyaf o angen, gan gynnwys y rheiny sy'n anodd eu cyrraedd
- cefnogi prosiectau sy'n ymateb i anghenion cymunedau a'u cynnwys yn weithredol.

Mae angen i brosiectau ddangos sut y maent yn bodloni o leiaf un o bedwar canlyniad y Gronfa Loteri Fawr. Bydd sefydliadau Gwirfoddol a Chymunedol, mentrau cymdeithasol a chyrff statudol fel ysgolion yn gymwys i wneud cais, ar yr amod eu bod yn bodloni meini prawf y rhaglen.

Rhaglenni strategol

Mae gweddill rhaglenni Lloegr i gyd, yn fras, yn rhaglenni ariannu strategol, er y bydd y rhaglenni hyn yn cynnwys elfennau sy'n ymateb i'r galw.

'Community Learning'

Cyllideb: hyd at £120 miliwn

Mae hwn yn cynnwys dwy raglen strategol: 'Community Libraries' (hyd at £80 miliwn) a Family Learning (hyd at £40 miliwn). Mae Llyfrgelloedd Cymunedol yn bwriadu cefnogi datblygu nifer o lyfrgelloedd cymunedol blaenllaw. Bydd y rhain yn darparu man ar gyfer dysgu gydol oes o fewn cymunedau. Nod y rhaglen yw cefnogi ystod ehangach o weithgareddau a rolau na'r rheiny a ddarperir fel arfer gan y rhan fwyaf o lyfrgelloedd.

Bydd y Rhaglen 'Family Learning' yn canolbwyntio ar faterion teuluol ehangach, perthnasau teuluol ac yn cefnogi gweithgareddau fydd yn gwella sgiliau rhifedd, iaith a llythrennedd neu achrediad.

'Building and Sustaining Infrastructure Services (BASIS)'

Cyllideb: hyd at £155 miliwn

Bydd y rhaglen yn ariannu prosiectau gan sefydliadau isadeiledd sy'n:

- cynyddu'r adnoddau sydd ar gael i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol
- cynyddu sgiliau sefydliadau gwirfoddol a chymunedol ym meysydd:
  - cynllunio a rheoli
  - rheolaeth ariannol ac ariannu
  - dylanwadu ar arferion polisi cenedlaethol a lleol
  - dysgu a rhannu dysgu
  - rheolaeth
- gwella cynaliadwyedd isadeiledd, gan gynnwys cyfalaf ar gyfer canolfannau adnoddau'r sector gwirfoddol.

'Community Buildings'

Cyllideb: hyd at £5[illegible] miliwn

Yn bennaf, bydd y rhaglen hon yn ariannu cymorth ar ffurf cyfalaf ar gyfer adeiladau cymunedol. Byddwn yn disgwyl ymrwymiad cryf gan ddefnyddwyr a'r gymuned ar gyfer unrhyw adeilad a ariennir. Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod y ddarpariaeth yn gwneud synnwyr yng nghyd-destun cyfan yr ardal leol ac y bydd rheolwyr unrhyw adeilad a ariennir yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i sicrhau y bydd adeilad yn gyfleuster dilys ar gyfer y gymuned gyfan.

Cronfa Pobl Ifanc

Cyllideb: Rhaglen bresennol £157.5 miliwn. Cam dau, hyd at £100 miliwn

Mae gan raglen y Gronfa Pobl Ifanc nifer o ffrydiau gan gynnwys tair sy'n ymateb i'r galw: Grantiau Cenedlaethol, Grantiau i Sefydliadau a Grantiau i Unigolion. Bydd prosiectau'n annog pobl ifanc i gyflawni'r canlynol:

- bod yn iach
- cadw'n ddiogel
- mwynhau a chyflawni
- gwneud cyfraniad positif
- gwella lles economaidd.

'Advice Servi[illegible]'

Cyllideb: hyd at £50 miliwn

Bydd gan y rhaglen hon dair nod:

- gwella isadeiledd gwasanaethau cynghori
- darparu gwasanaeth strategol
- arloesedd, cynllunio a phartneriaethau lleol.

Parks for People

Cyllideb: hyd at £90 miliwn

Nod y rhaglen Parks for People fydd:

- darparu gwell parciau y gall pawb eu defnyddio ac sy'n berthnasol i anghenion eu cymunedau
- cynyddu cysylltiad y gymuned â pharciau a'i balchder ynddynt
- gwella diogelwch
- cynyddu nifer y ceidwaid, swyddogion cadwraeth a gwirfoddolwyr cymwys
- sicrhau bod parciau'n cael eu cynnal a'u rheoli yn yr hirdymor gan awdurdodau lleol a chymunedau.

Rydym yn cynnal y rhaglen hon mewn partneriaeth â Chronfa Dreftadaeth y Loteri, gan adeiladu ar eu harbenigedd helaeth mewn darparu arian y Loteri ar gyfer prosiectau parciau cyhoeddus.

'Changing Spaces'

Cyllideb: hyd at £234 miliwn

Mae gan raglen Changing Spaces dri maes blaenoriaeth:

- mannau cymunedol - datblygu mannau cymunedol hygyrch o ansawdd da y gall bobl leol ymfalchïo ynddynt
- menter gymunedol leol - gwneud cysylltiadau rhwng bwyd, ymarfer corff ac iechyd, annog defnydd cynaliadwy ac ailddefnyddio adnoddau ac adeiladu economi leol gynaliadwy
- mynediad i'r amgylchedd naturiol - gwella'r amgylchedd naturiol ac annog mynediad.

Bydd arian yn cael ei ddosbarthu drwy nifer o Bartneriaid Dyfarnu, fydd yn cynnal cynlluniau grant ar ein rhan, a Phartneriaid Portffolio, fydd yn darparu arian i 'bortffolio' o brosiectau a bennwyd ymlaen llaw.

'Well-being'

Cyllideb: hyd at £165 miliwn (£45 miliwn ar gyfer prosiectau bwyta'n iach)

Nod y rhaglen 'Well-being' fydd:

- cynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau corfforol, gan gynnwys teithio
- addysgu cymunedau ynglŷn â bwyta'n iach
- datblygu dulliau ymyrraeth gynnar at broblemau iechyd meddwl cyffredin.

'Children's Play'

Cyllideb: hyd at £155 miliwn

Bydd wythdeg y cant o'r arian yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu darpariaeth chwarae rhad ac am ddim i bawb yn yr ardaloedd sydd â'r angen fwyaf. Bydd yr 20 y cant arall yn cael ei rannu rhwng:

- cronfa arloesedd fydd yn datblygu arferion arloesol wrth gynllunio, dylunio a dosbarthu
- strwythur cefnogi a datblygu rhanbarthol.

Bydd y rhaglen hon yn cefnogi gweithgareddau sy'n cael eu hunain-arwain, sy'n hwyl ac yn greadigol. Nod y rhaglen yw:

- creu, gwella a datblygu mannau chwarae lleol rhad ac am ddim i blant a phobl ifanc
- datblygu arferion arloesol
- creu strwythur cefnogi a datblygu
- hyrwyddo datblygiad strategol hirdymor y ddarpariaeth chwarae
- hyrwyddo newid positif hirdymor o ran agweddau ynglŷn â phwysigrwydd chwarae plant
- sicrhau Fod yr holl fudd-ddeiliaid lleol perthnasol yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu strategaethau chwarae.

3.4 Portffolio buddsoddi'r Alban

Cyllideb: hyd at £195.4 miliwn

Mae yna bedwar canlyniad cenedlaethol ar gyfer yr Alban, sef bod:

- Pobl yn cael gwell gyfleoedd mewn bywyd.
- Cymunedau'n ddiogelach, cryfach ac yn fwy abl i weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael ag anfantais.
- Gan bobl wasanaethau ac amgylcheddau gwell a mwy cynaliadwy.
- Pobl a chymunedau'n iachach.

Mewn ymateb i alw cryf mewn ymgynghoriadau am ffrydiau ariannu ehangach a mwy hyblyg a'n hymrwymiad ein hunain i fod yn ariannwr buddsoddi, rydym wedi datblygu portffolio buddsoddiad, sef Buddsoddi mewn Cymunedau. Mae hwn yn cynnwys pedwar maes buddsoddi, ac mae pob un o'r rhain yn cyfuno elfennau ymatebol a strategol. Dyma'r pedwar maes buddsoddi:

'Growing Community Assets'

Bydd Growing Community Assets yn galluogi cymunedau lleol i sicrhau, datblygu, gwella, amddiffyn, mwynhau, deall a chynnal asedau er lles y gymuned a'r amgylchedd ehangach. Bydd hyn yn cefnogi a chynyddu adfywiad wedi'i arwain gan gymunedau mewn cymunedau trefol a gwledig ar draws yr Alban.

Gallwn ariannu prosiectau i:

- brynu, gwella neu ddatblygu asedau
- talu am gymorth technegol fel dylunio a chynllunio prosiect, asesu risg a chynnal arolygon
- cyflogi datblygiad staff a helpu grwpiau i gael y sgiliau y mae arnynt eu hangen i ddatblygu ased.

Nod 'Growing Community Assets' yw cyflawni'r canlyniadau canlynol:

- sicrhau bod cymunedau'n gryfach, gyda dyheadau a rennir a'r gallu i gyflawni'r rhain gyda'i gilydd
- bod gan gymunedau wasanaethau a chyfleusterau sy'n diwallu anghenion pobl yn well ac sy'n fwy hygyrch
- bod gan bobl fwy o sgiliau, gwybodaeth a hyder, a chyfleoedd i ddefnyddio'r rhain er lles eu cymuned
- bod cymunedau'n cael effaith fwy positif ar yr amgylchedd lleol a byd-eang
- bod cymunedau'n fwy abl i fanteisio ar gyfleoedd, ac yn fwy arloesol a hunanddibynnol.

'Life Transitions'

Bydd y maes buddsoddi hwn yn helpu pobl i ymdrin â gwneud trawsnewidiadau yn eu bywydau - ar wahanol gyfnodau mewn bywyd ac o dan wahanol amgylchiadau.

Byddwn yn canolbwyntio'n hariannu ar bedwar maes: trawsnewidiadau y mae pobl ifanc yn eu profi; trawsnewidiadau y mae pobl dros 50 oed yn eu profi; trawsnewidiadau cyflogaeth a dysgu; a phobl sy'n wynebu amseroedd heriol yn eu bywydau.

Byddwn yn cefnogi prosiectau sy'n mynd i'r afael â'r problemau, yn darparu gwasanaethau cefnogi, neu'n helpu pobl i gael y sgiliau y mae arnynt eu hangen i ymdopi ar ben eu hunain.

Trwy'r maes buddsoddi hwn, rydym yn gobeithio cyflawni'r canlyniadau canlynol:

- bod gan bobl fwy o hyder a sgiliau i ymdopi â newidiadau i'w bywydau ac i wneud newidiadau
- bod gwasanaethau gwell a mwy cydgysylltiedig ar gael i helpu pobl i ymdopi â newidiadau yn eu bywydau
- bod gan bobl well mynediad at wasanaethau i'w helpu i ymdopi â gwneud newidiadau positif i'w bywydau, a mwy o wybodaeth amdanynt
- bod cymunedau'n gweithio gyda'i gilydd yn well i gefnogi pobl yn ystod newidiadau yn eu bywydau.

'Supporting 21st Century Life'

Nod Supporting 21st Century Life yw gwella ansawdd bywyd, iechyd a pherthnasau, sefydlu cysylltiadau ar draws cymdeithasau'r 21ain ganrif, a hwyluso cyfleoedd i gynllunio at y dyfodol.

Rydym yn disgwyl y bydd buddsoddiad 'Supporting 21st Century' Life yn cefnogi cynlluniau ymgyfeillio; mentora; gwirfoddoli; cynorthwyo rhieni ; gweithgareddau sy'n cynnal neu'n cryfhau perthnasau (yn arbennig rhai rhwng cenedlaethau); y defnydd o TG i frwydro yn erbyn ynysu ac eithrio cymdeithasol; a phrosiectau sy'n rhagweld, paratoi neu gynllunio at newidiadau'r dyfodol.

Dylai buddsoddiad 'Supporting 21st Century Life' gyfrannu at y canlyniadau canlynol:

- bod gan bobl a chymunedau fwy o gyfleoedd a gwell cyfleoedd i wneud cysylltiadau gyda'i gilydd a'u cynnal
- bod pobl a chymunedau'n fwy abl i fynd i'r afael â heriau bywyd yn y 21ain ganrif
- bod gan bobl fwy o hyder, hunan-barch a sgiliau bywyd i gynllunio ar gyfer eu dyfodol
- bod cymunedau'n fwy abl i ddysgu oddi wrth y gorffennol, ac i feddwl am y dyfodol a chynllunio'n bositif ar ei gyfer.

'Dynamic, Inclusive Communities'

Nod 'Dynamic, Inclusive Communities' yw creu'r amodau ble gall cymunedau iach a deinamig a gweithgaredd y sector gwirfoddol ffynnu ynddynt, a galluogi i gymunedau ddylanwadu ar brosesau dinesig.
Bydd yn buddsoddi mewn sefydliadau cenedlaethol, cyfryngol a chydraddoldeb i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd eu rhwydweithiau; ariannu ar gyfer grwpiau a sefydliadau lleol i wella cyfranogiad ac ymwneud â bywyd dinesig ar lefel gymunedol.

Bydd buddsoddiad 'Dynamic, Inclusive Communities' yn helpu i gyflawni'r canlyniadau hyn:

- bod rhwydweithiau'r sector gwirfoddol a chymunedol yn cynnig gwell gwasanaethau sy'n fwy cyson ac eang
- bod gweithredoedd y sector gwirfoddol a chymunedol yn fwy bywiog, ac yn cysylltu â chymunedau ac yn gallu cefnogi newid
- bod sefydliadau'r sector Gwirfoddol a Chymunedol yn cael eu rheoli a'u llywodraethu'n well ac yn darparu gwell gwasanaethau
- bod gwybodaeth ac arferion cydraddoldeb yn well ar draws y sector gwirfoddol a chymunedol
- bod gan bobl a chymunedau fwy o rym dros eu bywydau a mwy o lais yn y penderfyniadau a wneir.

Ar 31 Ionawr 2006, bu i ni lansio 'Investing in Ideas', sy'n golygu bod £4.6 miliwn ar gael i grwpiau allu profi a datblygu syniadau allai ddatblygu'n brosiectau llawn sy'n berthnasol i un o'r pedwar maes buddsoddi hyn. Gall 'Investing in Ideas' roi grantiau o hyd at £10,000 i helpu sefydliadau a chymunedau sy'n ceisio buddsoddiad i dalu am weithgareddau neu wasanaethau all helpu syniad i droi'n brosiect sydd wedi'i gynllunio'n dda. Gall grantiau dalu am ymchwil y farchnad, ymgynghori â chymunedau, astudiaethau dichonoldeb, cynllun busnes neu gyngor proffesiynol.

Arian arall y Gronfa Loteri Fawr yn yr Alban:

Cronfa Pobl Ifanc yr Alban

Cyllideb: £20 miliwn

Lansiwyd y Gronfa Pobl Ifanc ym mis Awst 2005, a'i nod yw helpu pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed i ddysgu pethau newydd ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau iach a phositif sy'n gwneud iddynt deimlo'n dda amdanynt eu hunain.

Mae ganddo dair ffrwd:

- Prosiectau lleol y mae pobl ifanc wedi dweud eu bod yn wirioneddol mynd i'r afael â materion pwysig.
- Prosiectau cynhwysiad ehangach sy'n cynnwys grwpiau o bobl ifanc sy'n rhannu pryderon, profiadau neu faterion cyffredin ond ble gall prosiectau fod wedi'u lledaenu ar draws mwy nag un ardal awdurdod lleol.
- Prosiectau syniadau newydd sy'n rhoi cynnig ar ddulliau newydd neu sy'n mabwysiadu dulliau sydd eisoes wedi'u cymhwyso'n llwyddiannus mewn ardal arall.

Mae tri chanlyniad i'r Gronfa Pobl Ifanc:

- bydd gan bobl ifanc fwy o gyfleoedd i fagu hyder a sgiliau
- bydd pobl ifanc yn cael mwy o gyfleoedd i wneud penderfyniadau am yr hyn sy'n effeithio arnynt
- bydd pobl ifanc yn cael mwy o gyfleoedd i wneud pethau sy'n gwneud iddynt deimlo'n dda amdanynt eu hunain.

Arian i Bawb yr Alban

Cyllideb: hyd at £10.5 miliwn

Cynllun ar y cyd gan y Loteri yw Arian i Bawb sy'n cefnogi ystod o weithgareddau treftadaeth, elusennol, iechyd, addysgiadol, amgylcheddol, chwaraeon a'r celfyddydau. Yn yr Alban, bydd y Gronfa Loteri Fawr yn cyfrannu hyd at £10.5 miliwn i Arian i Bawb, a bydd grantiau o rhwng £500 a £10,000 ar gael i brosiectau yn y gymuned.

3.5 Rhaglenni Cymru

Mae'r tri chanlyniad cenedlaethol yng Nghymru fel a ganlyn:

- bod pobl o bob oed yn meddu ar y sgiliau a'r addysg y mae arnynt eu hangen i ddiwallu heriau cymdeithas fodern
- bod pobl yn gweithio gyda'i gilydd i greu cymunedau cryfach, cyfiawnder cymdeithasol a gwell amgylcheddau dinesig a gwledig
- pobl a chymunedau iachach a mwy bywiog yn gorfforol.

Ein nod yw cyflawni'r canlyniadau hyn trwy gyfres o raglenni sy'n ymateb i'r galw a rhai strategol.

Rhaglenni sy'n ymateb i'r galw

Arian i Bawb Cymru

Cyllideb: hyd at £2.25 miliwn y flwyddyn

Cafodd Arian i Bawb Cymru ei ail-lansio ym mis Ebrill 2006, ac mae'n rhoi grantiau o rhwng £500 a £5,000 i brosiectau sy'n cynnwys pobl yn eu cymuned leol, gan ddod â nhw at ei gilydd mewn ystod o weithgareddau treftadaeth, elusennol, iechyd, addysgiadol, amgylcheddol a gweithgareddau cymunedol eraill.

Pawb a'i Le

Cyllideb: hyd at £66 miliwn

Lansiwyd Pawb a'i Le ym mis Tachwedd 2005. Ei nod yw dod â phobl at ei gilydd i wneud eu cymunedau'n lefydd gwell i fyw ynddynt ac i wella amgylcheddau gwledig a threfol.

Mae'n cefnogi prosiectau sy'n cyflawni un neu fwy o'r canlyniadau rhaglen canlynol:

- adfywio cymunedau
- gwell cysylltiadau cymunedol
- gwell amgylcheddau lleol ac amwynderau cymunedol.

Mae'r rhaglen hon yn agored i'r sectorau cymunedol, gwirfoddol a chyhoeddus. Bydd yn cefnogi prosiectau lleol a rhanbarthol a phrosiectau sy'n gweithio ledled Cymru. Gall prosiectau weithio gyda chymunedau daearyddol neu gymunedau o ddiddordeb. Mae arian ar gael ar gyfer prosiectau cyfalafol a phrosiectau refeniw.

Rhaglenni strategol

Teuluoedd Iach

Cyllideb: hyd at £20 miliwn

Lansiwyd y fenter hon ym mis Ebrill 2006 ac mae'n ceisio hybu iechyd a ffyrdd iach o fyw ymhlith plant a phobl ifanc drwy greu ddull o weithredu at chwarae plant, maeth a gweithgareddau corfforol. Bydd yn cefnogi prosiectau sy'n gweithio gyda phlant rhwng 0 a 12 mlwydd oed trwy ddwy raglen sydd wedi'u cysylltu â'i gilydd. Bydd un yn canolbwyntio ar hybu bwyta'n iach ac ymarfer corff mewn cyd-destun teuluol a bydd y llall yn canolbwyntio ar chwarae plant. Bydd asiantaethau allanol yn cael eu penodi i gefnogi datblygiad strategol ceisiadau o dan bob rhaglen. Bydd cysylltiadau strategol yn cael eu llunio rhwng y rhaglenni i sicrhau eu bod yn cydweddu ac yn adeiladu ar ei gilydd.

Cam wrth Gam

Cyllideb: hyd at £15 miliwn

Lansiwyd y rhaglen hon ym mis Mehefin 2006 ac fe fydd yn:

- helpu pobl a chanddynt rwystrau sylweddol sy'n ei gwneud yn anodd iddynt ddysgu i fagu'r hyder a'r sgiliau bywyd y mae arnynt eu hangen i fanteisio ar gyfleoedd dysgu a hyfforddiant
- cefnogi dysgu yn y gymuned sy'n helpu pobl i ymdrin â heriau bywyd ac i gyfrannu at eu cymuned.

Yn bennaf, bydd y rhaglen hon yn darparu arian refeniw i brosiectau sy'n arloesol ac yn strategol o ran y ffordd maent yn ymdrin â'r heriau sy'n wynebu'r bobl maent yn gweithio gyda nhw.

Hybu Iechyd Meddwl a Lles

Cyllideb: hyd at £15 miliwn

Bydd y rhaglen hon yn cael ei lansio erbyn mis Rhagfyr 2006 i gefnogi mentrau yn y gymuned sy'n rhoi cefnogaeth a chymorth ymarferol i bobl a chanddynt broblemau iechyd meddwl i'w helpu i fyw bywydau cynhyrchiol fel rhan o'u cymunedau.

Cronfa Pobl Ifanc

Cyllideb: £13.2 miliwn

Mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar bobl ifanc rhwng 10 ac 19 oed. Ei nod yw helpu pobl ifanc i fwynhau bywyd ac i gyrraedd eu potensial, i ddatblygu sgiliau ac i gyfrannu at eu cymunedau ac i ddewis agweddau positif sy'n ymwrthod ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae tair ffrwd yn perthyn i'r rhaglen, ac mae dwy o'r rhain ar agor ar gyfer ceisiadau ar hyn o bryd:

Dyma dy gyfle

Mae'r ffrwd hon yn darparu grantiau o rhwng £500 a £5,000 i helpu pobl ifanc i gymryd rôl arweiniol wrth ddatblygu'r math o brosiectau y maent eisiau eu gwneud. Bydd yn ariannu prosiectau, gweithgareddau ac offer y mae pobl ifanc wedi penderfynu fydd yn gwneud gwahaniaeth i'w bywydau neu i'w cymuned.

Help Llaw

Grantiau o hyd at £300,000 am hyd at dair blynedd i lenwi bylchau mewn gwasanaethau i bobl ifanc sydd wedi'u dadrithio neu sydd mewn perygl i hynny ddigwydd iddynt neu iddynt ymddieithrio.

Pontio

Grantiau o hyd at £1 miliwn dros bum mlynedd sy'n canolbwyntio ar ddatblygu gwasanaethau allgymorth a chefnogi i bobl ifanc sydd wedi'u dadrithio neu eu hymddieithrio o'r gymdeithas. Nid yw'r ffrwd hon bellach ar agor i geisiadau.

3.6 Rhaglenni Gogledd Iwerddon

Dyma'r pedwar canlyniad yng Ngogledd Iwerddon:

- Bod pobl yn cael y cyfle i gyrraedd eu potensial llawn.
- Gall bobl gymryd rhan ymarferol yn eu cymunedau gan wneud gwahaniaeth positif.
- Y gymuned yn berchen ar amgylchiadau trefol a dinesig gwell a diogelach.
- Gwell iechyd corfforol a meddyliol i bawb.

Mae'r holl raglenni wedi'u seilio ar ddwy egwyddor sylfaenol:

- ymdrin ag anfantais a hyrwyddo goddefgarwch a chynhwysiad cymdeithasol
- cyfrannu at leihau tlodi.

Mae'r pedwar canlyniad yn cael eu cefnogi gan naw blaenoriaeth yng Ngogledd Iwerddon.

- gwella sgiliau hanfodol i fodloni'r angen cymdeithasol ac economaidd
- cynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu yn y gymuned
- adeiladu gallu cymunedau
- cynyddu cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli a chymryd rhan mewn cymunedau a rhyngddynt
- adeiladu partneriaethau cymunedol a rhai gwirfoddol/statudol
- gwella cyfleusterau, mynediad a gwasanaethau cymunedol
- annog cymunedau i amddiffyn, adnewyddu a chynnal yr amgylchedd trefol a gwledig
- helpu unigolion a chymunedau i ddatblygu sgiliau i wneud dewisiadau ffyrdd iach o fyw
- hyrwyddo iechyd meddwl a lles emosiynol ar lefel unigol a chymunedol.

Rydym yn bwriadu cyflawni'r canlyniadau hyn drwy gyfres o raglenni sy'n ymateb i'r galw a rhai strategol.

Rhaglenni sy'n ymateb i'r galw

Arian i Bawb

Mae hyd at £3.5 miliwn y flwyddyn ar gael i Arian i Bawb rhwng 2006 a 2009. Mae grantiau o rhwng £500 a £10,000 ar gael i ariannu prosiectau sy'n cynnwys pobl yn eu cymuned leol.

'Active Lifestyles'

Cyllideb: hyd at £2.1 miliwn

Nod y rhaglen hon cael pobl i wneud mwy o weithgareddau corfforol. Y dyddiad cau terfynol ar gyfer grantiau canolig (rhwng £6,000 a £30,000) oedd 31 Ionawr 2006 a'r dyddiad cau terfynol ar gyfer grantiau bach (hyd at £1,000) yw 30 Mehefin 2006. Bydd penderfyniadau am grantiau canolig yn cael eu gwneud erbyn Gorffennaf 2006 a bydd y penderfyniadau terfynol ar geisiadau am grantiau bach yn cael eu gwneud erbyn 31 Awst 2006.

Cronfa Pobl Ifanc

Cyllideb Bresennol: £14.8 miliwn (sy'n cynnwys estyniad o £5 miliwn)

Mae **Change UR Future** yn un rhan o'r Gronfa Pobl Ifanc. Mae ganddo £10.8 miliwn i gefnogi prosiectau sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc rhwng 0 a 25 oed, mae'n para am hyd at 5 mlynedd, yn targedu adnoddau i'r bobl ifanc hynny sydd fwyaf mewn perygl o gael eu gwahardd neu o droseddu, ac yn cynnwys pobl ifanc mewn dylunio, darparu a gwerthuso'r prosiect. Bydd yr estyniad £5 miliwn yn canolbwyntio ar ariannu anghenion pobl ifanc rhwng 10 ac 18 oed.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi penodi Partner Dyfarnu i ddarparu rhaglen grantiau bach fydd yn cefnogi unigolion ifanc a grwpiau o bobl ifanc, ac i ddatblygu rhaglen(ni) strategol fydd yn cefnogi pobl ifanc rhwng 0 a 25 oed fel gwneuthurwyr penderfyniadau.

Reaching Communities Gogledd Iwerddon

Cyllideb: hyd at £18 miliwn. Gwiff y cyllidebau eu pennu bob blwyddyn.

Hyd at bum mlynedd o arian i brosiectau gwirfoddol a rhai cymunedol, mewn ymateb i anghenion a materion lleol. Bydd rhaid i brosiectau ddangos sut y byddant yn gwneud gwahaniaeth drwy fodloni o leiaf un o ganlyniadau Cronfa Loteri Fawr Gogledd Iwerddon.

Rhaglenni Strategol

'Live and Learn'

Bydd y rhaglen hon yn ymestyn y cyfleoedd sydd gan unigolion i gyrchu cyfleoedd dysgu. Bydd yn cefnogi ystod o wahanol weithgareddau, fydd yn cymryd i ystyriaeth y ffaith bod gwahanol unigolion yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd. Er enghraifft, cefnogaeth i bobl ifanc a phobl hŷn ddysgu gyda'i gilydd ac oddi wrth ei gilydd ac i gefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd i ddysgu gyda'i gilydd.

'Healthier and safer communities'

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu rhaglen strategol fydd yn adeiladu ar strategaethau a mentrau presennol i hyrwyddo cymunedau iachach a diogelach. Bydd hyn yn cynnwys ariannu rhaglenni sy'n hyrwyddo amgylcheddau a chymunedau iachach, gwell a diogelach.

'Improving Community Buildings'

Rydym yn datblygu rhaglen i wampio unigryw i ehangu ansawdd a'r defnydd o leoliadau cymunedol ar draws Gogledd Iwerddon.

'Big Trust Fund'

Byddwn yn cefnogi buddsoddiad mwy hirdymor i gefnogi gofynion isadeiledd a gallu'r sector gwirfoddol a chymunedol yng Ngogledd Iwerddon. Gan weithio gyda phartner(iaid), byddwn yn ymroi i gefnogi cyrff y Sector Gwirfoddol a Chymunedol i fodloni gofynion a heriau sy'n codi yn ystod cyfnod o newid sylweddol.

Y Gronfa Strategol

Bydd y gronfa hon yn hyblyg ac yn ein galluogi i edrych ar faterion datblygu i gefnogi prosiectau penodol yng Ngogledd Iwerddon ac i adeiladu ar fodelau sy'n defnyddio modelau math buddsoddwr, rhwng nawr a 2009.

4. Arian ar gyfer rhaglenni newydd 2006-2009

Cefndir

1. Mae'r swm sydd ar gael i'r Gronfa Loteri Fawr ei ddosbarthu ar ffurf grantiau wedi'i seilio ar y balansau arian sydd ar gael. Cyfrifir y balansau arian hyn drwy ddefnyddio:

- rhagfynegiad incwm
- rhagolygon gwariant ar gostau gweithredu
- rhagolygon taliadau grant ar gyfer dyfarniadau grant presennol a rhai sydd wedi'u cynllunio.

2. Wrth bennu cyllidebau, rydym yn cydnabod bod llawer o'n dyfarniadau grant ar gyfer ariannu prosiectau tair neu bum mlynedd, mae angen i ni sicrhau fod digon o arian ar gael i fodloni'r ymrwymiadau hyn. Gan gydnabod yr oedi hwn o ran amseru rhwng rhoi grant a'i dalu, mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo'r egwyddor o or-ymrwymo - hynny yw, gwneud dyfarniadau yn ôl incwm disgwyliedig yn y dyfodol. Caiff lefel yr ymrwymiad ymlaen llaw hwn ei bennu wrth i'r Bwrdd ystyried y risg sy'n gysylltiedig â ffrydiau incwm a gwariant y dyfodol. Dyma'r paramedrau risg a ddefnyddir i gyfrifo'r cyllidebau grant sydd ar gael:

- bod y risg o beidio â bodloni ymrwymiadau grant yn ddibwys (5 y cant tebygolrwydd)
- y risg o orfod lleihau ymrwymiadau'r dyfodol yn annisgwyl.

3. Wrth osod cyllidebau grant rydym wedi cynllunio i wneud ymrwymiadau grant fyddai'n sicrhau bod gennym union ddigon o arian i fodloni'r ymrwymiadau hynny o dan yr amgylchiadau gwaethaf posibl. Mae'r rhagamcanion incwm a gyhoeddwyd yn defnyddio'r rhagamcaniad incwm a ddarparwyd gan yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon.

4. Byddwn yn adolygu'r tybiaethau incwm, gwariant a balans arian yn fanwl bob chwe mis i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i nodi unrhyw newidiadau i gyllidebau grant y dyfodol.

5. Mae risgiau eraill yn gysylltiedig â newidiadau i incwm y dyfodol, gan gynnwys newidiadau i gyfran y Gronfa Loteri Fawr o incwm, cynnydd yn swm incwm y Loteri sy'n mynd i'r Gemau Olympaidd tu hwnt i'r hyn sydd eisoes wedi'i gyhoeddi ac unrhyw arian sy'n cael ei drosglwyddo drwy ddefnyddio grymoedd Mesur y Loteri Genedlaethol. Ar hyn o bryd, rydym yn cynnal trafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ynglŷn â'r tybiaethau rydym yn eu defnyddio i wneud ymrwymiadau yn erbyn incwm y dyfodol.

Cyllidebau grant

6. Fesul gwlad, mae tabl 2 isod yn crynhoi'r gyllideb grant ar gyfer 2006/07, a'r cyllidebau grant sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2007/08 a 2008/09. Mae'r ffigyrau hyn wedi'u seilio ar ddisgwyliadau gorau'r arian sydd ar gael a thybiaethau cynnar ynglŷn â darparu arian ar gyfer rhaglenni newydd. Bydd y rhan fwyaf o'r gyllideb grant (ymrwymiadau sydd yn y gyllideb) a nodwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn cael ei roi trwy raglenni grant newydd. Mae nifer o'r rhaglenni hyn yng nghamau cynnar datblygiad a gallai pryd y bydd y cyllidebau hyn yn cael eu cyflwyno ar draws blynyddoedd ariannol newid trwy well dealltwriaeth o'r rhaglen ddarparu. Mae'r cyllidebau ar gyfer 2007/08 a 2008/09 yn rhai dros dro a byddant yn cael eu pennu'n bendant ychydig cyn diwedd y flwyddyn ariannol berthnasol.

7. Nid yw cyllidebau grant yn cael eu rhannu'n gyfartal ar draws y tair blynedd, digwydd hyn yn bennaf o ganlyniad i'r Rhaglenni Creu Cof Byw, 'Wel eing' a 'Cha ing Spaces', sy'n cael eu harian mewn un fl yddyn ariannol. Bydd y 'blaenlwytho' ymrwymiadau hyn yn ein helpu i leihau balansau Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol oherwydd, po gynharaf y gallwn wneud ymrwymiad, cynharaf yn y byd y bydd arian yn dod â budd i'r rheiny rydym yn ceisio'u helpu drwy gyfrwng ein hariannu.

Tabl 2 Cyllideb grant ar gyfer 2006-07 a chyllidebau dros dro ar gyfer 2007-08 a 2008-09 – fesul gwlad

		Cyllideb dros dro	
	2006/07 £M	2007/08 £M	2008/09 £M
Rhaglenni'r DU			
Rhyngwladol (drwy'r DU gyfan)	**30.67**	28.17	13.17
Ymchwil (drwy'r DU gyfan)	**5.00**	10.00	10.00
Miliynau'r Bobl ((drwy'r DU gyfan)			
– Grantiau bach	**4.50**	4.00	4.00
– Grantiau mawr	**1.50**	0.00	0.00
Creu Cof Byw (drwy'r DU gyfan)	**20.00**	120.00	0.00
Llefydd i Natur	**5.00**	0.00	0.00
	66.67	162.17	27.17
Rhaglenni Lloegr			
Arian i Bawb	**40.00**	40.00	40.00
Reaching Communities	**100.00**	80.00	80.00
Community Buildings	**10.00**	20.00	20.00
Gwasanaethau cynghori	**16.60**	16.80	16.60
Cronfa Bobl Ifanc			
– Cydlynu'r chwaraeon ysgolion	**19.00**	0.00	0.00
– Rhaglen newydd	**10.00**	35.00	36.00
Chwarae Plant	**68.64**	70.86	0.00
Rhaglenni amgylcheddol			
– Parks	**15.00**	40.00	30.00
– Changing Spaces	**234.00**	0.00	0.00
BASIS	**50.00**	75.00	30.00
Community Learning	**80.00**	20.00	20.00
Well-being	**35.00**	130.00	0.00
	678.24	527.66	272.60

		Cyllideb dros dro	
	2006/07 £M	2007/08 £M	2008/09 £M
Rhaglenni'r Alban			
Active Futures (rhaglen etifeddiaeth y Gronfa Cyfleoedd Newydd)	**1.00**	0.00	0.00
Arian i Bawb	**7.50**	7.50	7.50
Y Gronfa Pobl Ifanc	**6.37**	6.37	6.37
Investing in Ideas	**1.15**	1.73	1.73
Portffolio Buddsoddi'r Alban:	**35.00**	80.20	80.20
– Dynamic, Inclusive Communities			
– Community Assets			
– Life Transitions			
– Supporting 21st Century Life			
Rewarding Excellence	**0.00**	2.50	2.50
Venture Fund	**0.00**	1.00	1.00
	51.02	99.30	99.30
Rhaglenni Cymru			
Mentro Allan (rhaglen etifeddiaeth y Gronfa Cyfleoedd Newydd)	**6.00**	0.00	0.00
Arian i Bawb 2005/09	**2.02**	2.08	2.14
Pawb a'i Le	**14.00**	26.00	26.00
Teuluoedd Iach	**1.00**	9.00	10.00
Chwarae plant			
Cam wrth Gam	**0.00**	12.00	3.00
Iechyd Meddwl	**0.00**	10.00	5.00
Cronfa Pobl Ifanc			
– Dyma dy gyfle	**0.40**	0.40	0.00
– Help Llaw	**4.00**	1.00	0.00
Heb ei ddyrannu	**0.00**	3.81	3.81
	27.42	64.28	49.95

		Cyllideb dros dro	
	2006/07 £M	2007/08 £M	2008/09 £M
Rhaglenni Gogledd Iwerddon			
Arian i Bawb 2005/09	**3.50**	3.50	0.90
Active Lifestyles (rhaglen etifeddiaeth Cronfa Cyfleoedd Newydd)	**0.46**	0.00	0.00
Cronfa Pobl Ifanc			
– Partner dyfarnu	**0.50**	2.50	1.00
– Change UR future	**2.00**	2.00	1.80
– Change UR future estynedig	**0.00**	2.50	2.50
Reaching Communities	**6.00**	6.00	6.00
Improving Community Buildings	**0.00**	5.00	0.00
Community Learning and Well-being	**0.00**	9.00	9.00
Healthier and safer communities	**0.00**	9.00	9.00
Trust Fund	**0.00**	10.00	0.00
Strategic Fund'	**1.00**	1.35	1.35
Heb ei ddyrannu	**0.00**	1.00	1.00
	13.46	51.85	32.55
	836.81	**905.26**	**481.57**

Incwm

8. Mae cyfanswm yr incwm a geir gan y Gronfa Loteri Fawr yn cael ei bennu gan faint o docynnau'r Loteri a werthir yn ystod y cyfnod cynllunio ac, i raddau llai, gan y gyfradd llog a gaiff Cronfa Ddatblygu'r Loteri Genedlaethol ar y balans a fuddsoddwyd yn ei gyfrif. Mae'r ffigyrau ar gyfer incwm (a nodir yn Nhabl 3 isod) wedi'u seilio ar y rhagamcaniad ar gyfer llifoedd incwm a ddarparwyd gan yr Adran Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ym mis Ionawr 2005.

9. Byddwn yn monitro'r incwm gwirioneddol a gynhyrchir ar gyfer yr achosion da yn agos iawn yn erbyn y rhagamcaniad hwn ac yn gwneud addasiadau i'r cynlluniau llif arian yn ôl yr angen.

10. Mae'r Gronfa Gymunedol yn cael 16.7 y cant o holl refeniw achosion da'r Loteri ac mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn cael 33.3 y cant. Unwaith y bydd y ddeddfwriaeth yn dod i rym, disgwylir y bydd y Gronfa Loteri Fawr yn cael 50 y cant o'r refeniw achosion da.

11. Mae'r ddeddfwriaeth ddrafft yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dyrannu llog i'w ddosrannu'n seiliedig ar gyfran yr incwm yn hytrach nag ar y drefn bresennol o gyfran balansau. Nid yw'r ffigyrau yn y tabl isod yn rhagdybio cyflwyno'r newid hwn.

Tabl 3:Amcangyfrifon incwm - a gyfrifwyd drwy ddefnyddio rhagamcaniad yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ym mis Rhagfyr 2005

	2006/2007 £M	2007/2008 £M	2008/2009 £M
Incwm o'r Loteri Genedlaethol	623	612	602
Llog a gafwyd ar falansau Cronfa Ddatblygu'r Loteri Genedlaethol	26	26	21

Llif arian

12. Y balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar gyfer y Gronfa Gymunedol oedd £164 miliwn (ar 28 Chwefror 2006); bryd hynny, cyfanswm yr ymrwymiadau nad oeddynt wedi'u talu oedd £422 miliwn. Y balans ar gyfer y Gronfa Cyfleoedd Newydd oedd £565 miliwn; a'r ymrwymiadau nad oeddynt wedi'u talu bryd hynny oedd £795 miliwn.

13. Er fod balans Cronfa Ddatblygu'r Loteri Genedlaethol wedi'i or-ymrwymo, mae'r ddau sefydliad yn ymrwymedig i barhau i leihau eu balansau. Fel y dywedwyd ar ddechrau'r bennod hon, rydym yn rheoli'r lleihad hwn ar yr un pryd â sicrhau bod digon o arian ar gael i fodloni ymrwymiadau grant.

14. Mae'r balansau a ragwelir ym mis Mawrth 2009 yn uwch na'r £365 miliwn a ragwelwyd y llynedd. Mae hyn yn adlewyrchu'r symudiad tuag at sicrhau bod mwy o arian ar gael i brosiectau pum mlynedd yn ogystal â'r cynnydd yn lefel yr ansicrwydd am ffrydiau incwm y dyfodol ar ôl 2009 o ganlyniad i ddyfodiad y Gemau Olympaidd i Lundain yn 2012.

15. Mae tabl 4 isod yn amlinellu rhagolwg llif arian presennol y Gronfa Loteri Fawr. Mae hyn wedi'i seilio ar y tybiaethau canlynol:

- bod tybiaethau incwm, gan gynnwys effaith y Loteri Olympaidd ar werthiant tocynnau'r Loteri Genedlaethol, yn gyson gyda rhagamcanion yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon.
- y rhagolygon gorau sydd ar gael o daliadau grant yn seiliedig ar brofiad y gorffennol a gwybodaeth am raglenni fel y cynlluniwyd.

Tabl 4 Rhagolwg llif arian – achos canolog

	2006/2007 £M	2007/2008 £M	2008/2009 £M
Balans yng Nghronfa Ddatblygu'r Loteri Genedlaethol a ddygwyd ymlaen	705	522	445
Incwm a ragwelir o'r Loteri Genedlaethol	623	612	602
Amcangyfrif o'r llog	26	26	21
Incwm arall	15	15	15
Taliadau grant	(762)	(653)	(571)
Taliad i NESTA	(15)	(15)	(15)
Taliadau costau gweithredu	(70)	(63)	(61)
Balans yng Nghronfa Ddatblygu'r Loteri Genedlaethol a ddygwyd ymlaen	**522**	**445**	**435**

16. At ddibenion cynllunio, rydym hefyd wedi ystyried rhagolwg achos gwaethaf (Tabl 5) i roi gwybod am y cronfeydd fydd ar gael ar gyfer ymrwymiadau'r dyfodol. Mae'r rhagolwg hwn yn wahanol i'r rhagolwg uchod yn y ffyrdd canlynol:

Tabl 5 Rhagolwg llif arian – yr achos gwaethaf posibl

	2006/2007 £M	2007/2008 £M	2008/2009 £M
Balans yng Nghronfa Ddatblygu'r Loteri Genedlaethol a ddygwyd ymlaen	705	399	199
Incwm a ragwelir o'r Loteri Genedlaethol	501	493	466
Amcangyfrif o'r llog	24	23	13
Incwm arall	15	15	15
Taliadau grant	(762)	(653)	(571)
Taliad i NESTA	(15)	(15)	(15)
Taliadau costau gweithredu	(70)	(63)	(61)
Balans yng Nghronfa Ddatblygu'r Loteri Genedlaethol a ddygwyd ymlaen	**399**	**199**	**45**

17. Mae'r ddau ragolwg yn barod am gyfnodau sylweddol hirach na'r cyfnodau tair blynedd a gyflwynir uchod. Mae'r rhagolygon yn dangos nad ydyw'n bosibl i ni gynllunio ymrwymiadau pellach cyn 2009/10 ar hyn o bryd. Byddwn yn adolygu'r rhagolwg hwn bob chwe mis – gyda'r bwriad o gynllunio ymrwymiadau pellach cyn gynted ag y bydd hynny'n ddoeth.

5. Costau gweithredu 2007-2009

1. Mae disgwyl i'r Gronfa Loteri Fawr sicrhau effeithiolrwydd gweinyddol o rhwng 10 - 20 y cant erbyn 2007/08 o ganlyniad i'r uniad. Bydd y targed hwn yn cael ei fesur o sefyllfa gwaelodlin cyllidebau 2003/04 ar gyfer y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol, wedi'i addasu ar gyfer costau unwaith ac am byth nad ydynt yn gostau rheolaidd nad ydynt yn rhai recriwtio - hynny yw, gostyngiad yn y costau rhedeg blynyddol o rhwng £6.2 miliwn - £12.3 miliwn.

2. Ac eithrio costau unwaith ac am byth nad ydynt yn gostau rheolaidd, y gyllideb cost gweithredu ar gyfer 2006/07 yw £60.7 miliwn. Mae hyn yn £2.4 miliwn (3.8 y cant) yn llai na gwaelodlin 2003/04 ond nid ydyw'n cynnwys £3.6 miliwn o ail-fuddsoddi mewn gweithgareddau newydd. Felly, mae arbedion o £6 miliwn yn erbyn gwaelodlin 2003/04 wedi'u nodi yn barod.

3. Mae'r arbedion a nodwyd hyd yma'n cynrychioli effeithlonrwydd sydd wedi codi o ganlyniad i gymhathu rheolaeth, eiddo a systemau'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Er mwyn gwneud arbedion yn y dyfodol, bydd rhaid gwneud penderfyniadau heriol am y materion canlynol:

- bod y gorfforaeth, y Bwrdd a rhanddeiliaid allanol yn deall ac yn prynu i mewn i'r hyn yw ein gwasanaethau craidd, gan roi ystyriaeth i gost lawn darparu'r rhain - mae hyn yn berthnasol yn benodol i ddisgwyliadau ynglŷn â rôl y gwledydd a strwythur rhanbarthau Lloegr
- mewnosod diwylliant o ateb y galw trwy herio'r holl wariant yn drwyadl i sicrhau gwerth am arian
- newidiadau strwythurol a diwylliannol yn y ffordd y mae'r Gronfa Loteri Fawr yn cyflwyno'i gweithgareddau craidd a'i gweinyddiaeth.

4. Mae arbedion pellach wedi'u nodi a'u crynhoi yn Nhabl 6 isod. Nid yw'r tabl hwn yn ystyried chwyddiant o gwbl ac felly, er mwyn cyflawni'r targed gofynnol, bydd rhaid i godiadau cyflog a chynnydd arall cysylltiedig â chwyddiant gael eu hamsugno o fewn cyllidebau presennol. Bydd arbedion y dyfodol yn cael eu creu drwy gwblhau'r prosiect Adolygiad Strwythurol a thrwy adleoli swyddogaethau grant yn Lloegr i ddwy ganolfan weithredu, gan greu arbedion o ran rhent eiddo a chostau staff. Yn ogystal â hyn, bydd rhaglen ar waith i adleoli nifer o swyddi corfforaethol o Lundain i'r ganolfan weithredu yn Birmingham yn cael ei gynnal.

Tabl 6 Arbedion a nodwyd

	2006/2007 £M	2007/2008 £M	2008/2009 £M	Later years £M
Cyllideb cost gweithredu gweithgarwch gwaelodlin	57.1	0.0	0.0	0.0
Gweithgareddau newydd	3.6	0.0	0.0	0.0
Cyllideb cost gweithredu gweithgarwch parhaus	**60.7**	**58.3**	**55.9**	**0.0**
Costau unwaith ac am byth nad ydynt yn gostau rheolaidd	7.8	1.2	0.3	0.0
Cyfanswm y gyllideb cost gweithredu	**68.5**	**59.5**	**56.2**	**0.0**
Ac eithrio costau unwaith ac am byth nad ydynt yn gostau rheolaidd:				
Arbedion a gyllidebwyd	6.0	0.0	0.0	0.0
Arbedion a ragwelir	0.0	2.4	2.4	1.9
Arbedion cronnus	6.0	8.4	10.8	12.7
Arbedion fel % o'r waelodlin	9.4%	13.2%	16.9%	19.9%

Atodiad A
Cyfeiriadau Polisi Interim Newydd – Cyfeiriadau Polisi Cyffredinol

CYFARWYDDYD A RODDWYD I FWRDD ELUSENNAU'R LOTERI GENEDLAETHOL A'R GRONFA CYFLEOEDD NEWYDD DAN ADRAN 26(1) O'R DDEDDF LOTERI GENEDLAETHOL AYB.1993

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn unol â'r pwerau a roddwyd iddi trwy adrannau 26(1) o'r Ddeddf Loteri Genedlaethol ayb. 1993 ac yn dilyn ymgynghori gyda Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ("y Cronfeydd") yn unol ag adran 26(5) o'r Ddeddf honno, ac yn dilyn ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweinidogion yr Alban ac Adran Diwylliant, Celfyddyd a Hamdden Gogledd Iwerddon yn cyflwyno'r cyfarwyddiadau canlynol i'r Cronfeydd:

1. Yn y Cyfarwyddiadau hyn mae unrhyw gyfeiriad at adran yn gyfeiriad at adran o'r Ddeddf Loteri Genedlaethol ayb. 1993.

Cyfarwyddiadau Cyffredinol

2. Bydd y Cronfeydd yn cymryd y materion canlynol i ystyriaeth wrth benderfynu i ba unigolion, ar gyfer pa ddibenion ac o dan ba amodau y bydd yn dosbarthu unrhyw arian o dan adran 25(1):

A. Yr angen i sicrhau y caiff arian ei ddosbarthu o dan adran 25(1) ar gyfer prosiectau sydd yn hyrwyddo lles y cyhoedd ac nad ydynt wedi eu bwriadu ar gyfer elw personol yn bennaf.

B. Yr angen i sicrhau y caiff arian ei ddosbarthu o dan adran 25(1) ar gyfer prosiectau sydd yn gwneud gwelliannau gwir a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.

C. Yr angen i sicrhau fod y Cronfeydd, dros amser, yn dosbarthu arian i brosiectau ym mhob gwlad o fewn y Deyrnas Unedig.

D. Yr angen i fod yn flaengar a mentrus wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1) ynghyd â'r angen i reoli risg mewn modd sydd yn berthnasol i'r math o brosiect ac ymgeisydd sydd dan sylw.

E. Yr angen i sicrhau fod y Cronfeydd, wedi iddynt asesu angen ac unrhyw flaenoriaethau a ganfuwyd yn eu strategaethau, yn llwyddo i ddosbarthu arian i ystod weddol eang o dderbynyddion dros amser, gan gynnwys sefydliadau bychain, y sefydliadau hynny sydd yn gweithredu ar lefel leol yn unig, mentrau cymdeithasol, a mentrau gyda chanolfan yn y Deyrnas Unedig ac sydd yn gweithio dramor.

F. Yr angen i sicrhau fod y Cronfeydd , dros amser, yn llwyddo i ddosbarthu arian yn rhesymol gyfartal rhwng y gwariant ar neu'n gysylltiedig â:

i hyrwyddo dysgu cymunedol er mwyn creu cyfleoedd

ii hyrwyddo diogelwch a chydlyniad cymunedol, a

iii hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.

G.Anghenion plant a phobl ifanc.

H. Yr angen i hyrwyddo amcanion datblygu cynaliadwy.

I. Yr angen i osod terfynau amser penodol ar y cyfnodau o safbwynt pa grantiau sydd yn daladwy, boed ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.

J. Yr angen am y canlynol:

i ymgeiswyr yn dangos, ym mhob achos, y bydd y prosiect yn hyfyw gydol cyfnod y grant;

ii pan fydd cais am arian cyfalaf:
a. cynllun busnes eglur yn cynnwys yr angen i adnoddau fod ar gael i gwrdd ag unrhyw gostau rhedeg a chynnal sydd ynghlwm wrth bob prosiect am gyfnod rhesymol, gan gadw mewn cof faint a natur y prosiect: ac
b. yn achos prosiectau mawr, sicrhau fod y broses o werthuso a rheoli'r prosiect yn cyfateb i'r hyn a nodir yn Adolygiadau Gateway, Swyddfa Masnach y Llywodraeth.

iii mewn achosion eraill, ystyried y posibilrwydd fod arian arall ar gael i gwrdd ag unrhyw gostau pellach am gyfnod rhesymol wedi defnyddio arian y Loteri, gan gymryd i ystyriaeth beth yw maint a natur y prosiect, ac y defnyddir arian y Loteri i hyrwyddo cynnydd tuag at hyfywedd ble bynnag y mae hynny'n bosibl.

K. Ei bod yn ddymunol gweithio gyda sefydliadau eraill, yn cynnwys dosbarthwyr eraill, lle bo hynny yn ffordd effeithiol o hyrwyddo elfennau penodol yn eu strategaethau.

L. Yr angen i sicrhau fod y Cronfeydd yn derbyn y wybodaeth sydd yn eu barn hwy yn angenrheidiol er mwyn cyrraedd penderfyniad ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol ac annibynnol lle bo angen.

M. Yr angen am elfen o ariannu mewn partneriaeth a/neu dderbyn cyfraniadau o fath arall o ffynonellau eraill yn unol â gallu rhesymol gwahanol fathau o ymgeiswyr, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol i dderbyn cefnogaeth o'r fath.

N. Yr angen i gynnwys amod gyda phob grant sef cydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri.

O. Yr angen i gynnwys y cyhoedd yn y gwaith o ffurfio polisïau, gosod blaenoriaethau a derbyn grantiau.

3. Bydd Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol yn ystyried y materion canlynol wrth benderfynu i ba unigolion, ar gyfer pa ddibenion ac o dan ba amodau y bydd yn dosbarthu unrhyw arian o dan adran 25(1):

A. yr angen i hyrwyddo dysgu cymunedol er mwyn creu cyfleoedd;

B. yr angen i hyrwyddo diogelwch a chydlyniad cymunedol, a'r

C. angen i hyrwyddo lles corfforol a meddyliol

Grantiau Trawsnewid

4. O safbwynt y cynllun grantiau trawsnewid ar y cyd, bydd y Cronfeydd yn ystyried y materion canlynol wrth benderfynu i ba unigolion, ar gyfer pa ddibenion ac o dan ba amodau y bydd yn dosbarthu unrhyw arian o dan adran 25(1):

A. Yr angen i ddosbarthu arian ar gyfer gwariant cyfalaf ar brosiectau ac i'w ddosbarthu mewn modd gwahanol mewn achosion lle bydd yr arian:

- **i** yn cael ei ddosbarthu fel gwaddoliadau neu fel grantiau refeniw lle bydd:
  - a. y gwaddoliadau neu'r grantiau hynny'n gysylltiedig â phrosiect cyfalaf lle mae arian/lle bwriedir i arian gael ei ddosbarthu; a'r
  - b. gwaddoliadau neu'r grantiau hynny yn cefnogi datblygu canlyniadau'r prosiectau, yn cynyddu hygyrchedd, yn lleihau rhwystrau i fynediad ac yn sicrhau bod y prosiectau hynny'n gynaliadwy; neu
- **ii** yn cael ei ddosbarthu ar gyfer ariannu prosiectau sydd wedi eu hasesu fel rhai addas ar gyfer yr arian hwn.

B. Yr angen i drawsnewid ac adfywio cymunedau a'r amgylchedd ffisegol.

C. Yr angen i gynnwys y cyhoedd yn gyffredinol yn y penderfyniad i roi grantiau a hynny trwy:

- **i** ymgynghori, systemau pleidleisio neu ddulliau addas eraill;
- **ii** osgoi gweithredu'n rhagfarnllyd, yn llwgr ac yn ddylanwadol; a
- **iii** llunio partneriaethau gyda'r cyfryngau, darlledu, dulliau electronig, argraffu ac eraill.

Cyfeiriadau Polisi Interim Newydd – Lloegr

CYFARWYDDYD A RODDWYD I FWRDD ELUSENNAU'R LOTERI GENEDLAETHOL A'R GRONFA CYFLEOEDD NEWYDD DAN ADRANNAU 26(1) A43C(1) O'R DDEDDF LOTERI GENEDLAETHOL AYB.1993

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn unol â'r pwerau a roddwyd iddi trwy adrannau 26(1) a 43C(1)o'r Ddeddf Loteri Genedlaethol ayb. 1993 a hynny yn dilyn ymgynghoriad gyda Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ("y Cronfeydd") yn unol ag adrannau 26(5) o'r Ddeddf honno, ac yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Gronfa Cyfleoedd Newydd o dan adran 43C(2), yn cyflwyno'r cyfarwyddiadau canlynol i'r Cronfeydd:

1. Yn y Cyfarwyddiadau hyn mae unrhyw gyfeiriad at adran yn gyfeiriad at adran o'r Ddeddf Loteri Genedlaethol ayb. 1993.

Dosbarthu o safbwynt Lloegr

2. Yn achos Lloegr, bydd y Cronfeydd yn cymryd y materion canlynol i ystyriaeth wrth benderfynu i bwy, ar gyfer pa ddibenion ac o dan ba amodau y bydd y Cronfeydd yn dosbarthu unrhyw arian o dan adran 25(1):

A. Yr angen i gadw mewn cof fuddiannau Lloegr gyfan, buddiannau gwahanol rannau o Loegr ac hefyd maint cymharol y boblogaeth, a'r cyfle i leihau amddifadedd cymdeithasol yn y gwahanol rannau o Loegr.

3. A. Bydd Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol yn ystyried yr angen i sicrhau y cyflawnir un neu fwy o'r canlyniadau a ganlyn wrth benderfynu i ba unigolion, ar gyfer pa ddibenion ac o dan ba amodau y bydd y Cronfeydd yn dosbarthu unrhyw arian o dan adran 25(1 yn Lloegr; a bydd y Gronfa Cyfleoedd Newydd, yn unol ag adran 43C(1), yn dosbarthu arian o dan adran 25(1) mewn perthynas â Lloegr i brosiectau sydd â'r nod o gyrraedd un neu ragor o'r canlyniadau canlynol:

A. Pobl yn cael gwell cyfleoedd mewn bywyd, gyda gwell manteision o safbwynt hyfforddiant a datblygiad er mwyn gwella'u sgiliau bywyd.

B. Cymunedau cryfach, gyda dinasyddion mwy bywiog, yn cydweithio er mwyn goresgyn eu problemau.

C. Gwell amgylcheddau mewn ardaloedd trefol a chefn gwlad, y gall cymunedau fynd iddynt a'u mwynhau yn llawnach.

D. Pobl a chymunedau iachach a mwy bywiog.

4. Yn achos Lloegr, bydd y Cronfeydd yn ystyried yr angen i sicrhau y bodlonir un neu fwy o'r blaenoriethau a ganlyn wrth benderfynu i ba unigolion, ar gyfer pa ddibenion ac o dan ba amodau y bydd y Cronfeydd yn dosbarthu unrhyw arian o dan adran 25(1):

A. Gwella sgiliau teulu.

B. Gwella llythrennedd, rhifyddeg, TGCh a sgiliau creadigol.

C. Datblygu sgiliau defnyddwyr, yn cynnwys rheoli cyllid a dyledion.

D. Datblygu sgiliau busnes sylfaenol, yn enwedig ar gyfer mentrau cymdeithasol a chreadigol.

E. Symud rhwystrau rhag sicrhau gwaith a datblygu'r gallu i ganfod gwaith trwy ddatblygu sgiliau cyfathrebu a sgiliau datrys problemau.

F. Datblygu sgiliau bywyd, yn cynnwys sgiliau sydd yn hyrwyddo annibyniaeth bersonol a'r gallu i ryngweithio gydag eraill.

G. Ymateb i anghenion gwirfoddolwyr o safbwynt hyfforddiant.

H. Dathlu hunaniaeth, diwylliant, amrywiaeth a llwyddiannau o fewn cymunedau.

I. Denu gwirfoddolwyr a chryfhau isadeiledd y sector gwirfoddol.

J. Adeiladu'r gallu i weithio o fewn y gymuned.

K. Ehangu profiadau pobl ifanc a chodi disgwyliadau.

L. Lleihau unigedd, er enghraifft yn achos pobl hŷn, pobl anabl a'u gofalwyr, a'u galluogi i fod yn rhan o fywyd cymunedol a bywyd teuluol.

M. Cefnogi dinasyddiaeth, arweinyddiaeth a chynllunio a darparu yn lleol.

N. Sicrhau mannau mwy diogel, yn rhydd oddi wrth ymddygiad gwrth-gymdeithasol a throsedd.

O. Mannau cyhoeddus a chelfyddyd cyhoeddus wedi eu dylunio'n well, yn lân ac wedi eu cynnal yn dda.

P. Cynyddu defnydd y cyhoedd o barciau lleol, cyfleusterau chwarae, mannau cyhoeddus, adeiladau cymunedol a chefn gwlad.

Q. Galluogi cymunedau i fynd i'r afael â phroblemau amgylcheddol lleol ac i wella'u hamgylchedd lleol.

R. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r amgylchedd trwy gyfrwng prosiectau addysgiadol.

S. Cynyddu cyfranogiad y gymuned mewn chwaraeon, dawns, chwarae a gweithgareddau creadigol.

T. Datblygu gwell agweddau tuag at ddatrys problemau iechyd meddwl, trwy gyfrwng dulliau yn cynnwys addysg, ymwybyddiaeth y cyhoedd a'r celfyddydau.

U. Gwella cyfleoedd ar gyfer bwyta'n iachach a hyrwyddo'r berthynas rhwng dulliau cynhyrchu a'r amgylchedd.

V. Datrys problemau anghydraddoldeb ym maes iechyd trwy gyfrwng prosiectau addysgiadol.

Cyfeiriadau Polisi Interim Newydd – Cymru

CYFARWYDDYD A RODDWYD I FWRDD ELUSENNAU'R LOTERI GENEDLAETHOL A'R GRONFA CYFLEOEDD NEWYDD DAN ADRANNAU 26(1) A 43C(1) O'R DDEDDF LOTERI GENEDLAETHOL AYB.1993

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflwyno'r cyfarwyddiadau canlynol i'r Cronfeydd, yn unol â'r pwerau a roddwyd iddo trwy adrannau 26(1) a 43C(1) o'r Ddeddf Loteri Genedlaethol ayb. 1993 a hynny yn dilyn ymgynghori gyda Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ("y Cronfeydd") yn unol ag adran 26(5), ac yn dilyn ymgynghori â'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn unol ag adran 43C(2) o'r Ddeddf honno, ac yn dilyn ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon:

1. Yn y Cyfarwyddiadau hyn mae unrhyw gyfeiriad at adran yn gyfeiriad at adran o'r Ddeddf Loteri Genedlaethol ayb. 1993.

Dosbarthiad o safbwynt Cymru

2. Yn achos Cymru, bydd y Cronfeydd yn ystyried y materion canlynol wrth benderfynu i ba unigolion, ar gyfer pa ddibenion ac o dan ba amodau y bydd y Cronfeydd yn dosbarthu unrhyw arian o dan adran 25(1):

A. Yr angen i hyrwyddo a chefnogi'r iaith Gymraeg ac adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru a hefyd cydymffurfio â'r egwyddor o gydraddoldeb rhwng yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg. Dylid gwneud hyn trwy gynnwys amodau penodol ar iaith ynghlwm wrth grantiau a thrwy fonitro ac arolygu perfformiad y rhai sy'n derbyn grantiau yn unol â'r amodau hyn.

B. Yr angen i ystyried buddiannau Cymru gyfan, buddiannau gwahanol rannau o Gymru a maint cymharol poblogaethau yn y gwahanol rannau o Gymru a'r posibiliadau o ran lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol o'u mewn.

3. Bydd Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol yn ystyried yr angen i sicrhau y cyflawnir un neu fwy o'r canlyniadau canlynol wrth benderfynu i ba unigolion, ar gyfer pa ddibenion ac o dan ba amodau y dosberthir unrhyw arian o'r Cronfeydd o dan adran 25(1) yng Nghymru; a bydd y Gronfa Cyfleoedd Newydd, yn unol ag adran 43C(1), yn dosbarthu arian o dan adran 25(1) yn achos Cymru i brosiectau sydd â'r nod o gyflawni un neu ragor o'r canlyniadau canlynol:

A. pobl o bob oed yn derbyn y sgiliau a'r addysg sy'n angenrheidiol ar gyfer ymateb i heriau cymdeithas fodern;

B. pobl yn cydweithio i greu cymunedau cryfach ac i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol a gwell amgylcheddau trefol a gwledig;

C. cymunedau a phobl yn iachach ac yn fwy bywiog yn gorfforol.

4. O safbwynt Cymru, bydd y Cronfeydd yn ystyried yr angen i sicrhau y cyflawnir un neu ragor o'r blaenoriaethau canlynol wrth benderfynu i ba unigolion, ar gyfer pa ddibenion ac o dan ba amodau y dosberthir arian o dan adran 25(1):

A. mynd i'r afael â'r rhwystrau i ddysgu o fewn y gymuned a dysgu sgiliau hanfodol bywyd;

B. galluogi plant a phobl ifanc i gyrraedd eu potensial llawn;

C. galluogi cymunedau i ddatblygu a darparu rhaglenni adfywio yn lleol;

D. datblygu ymatebion cymunedol adeiladol i anfodlonrwydd, ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd;

E. galluogi pobl hŷn i fyw bywydau annibynnol ac i gyfrannu tuag at eu cymunedau;

F. galluogi cymunedau i reoli a gwella eu hamgylchedd a'u mwynderau lleol;

G. datblygu gallu pobl i fod yn gyfrifol am eu lles a'u iechyd eu hunain yn unol ag egwyddorion sylfaenol Her Iechyd Cymru, gan annog unigolion a sefydliadau ledled Cymru i wella eu iechyd;

H. hyrwyddo bwyta'n iachach a chynyddu gweithgaredd corfforol ar draws pob grŵp oedran, rhyw a chymdeithas;

I. datblygu dulliau newydd tuag at hyrwyddo lles a iechyd meddwl.

Cyfeiriadau Polisi Interim Newydd – Gogledd Iwerddon

CYFARWYDDYD POLISI DRAFFT YN YMWNEUD Â GOGLEDD IWERDDON A RODDWYD I FWRDD ELUSENNAU'R LOTERI GENEDLAETHOL AC I'R GRONFA CYFLEOEDD NEWYDD DAN ADRANNAU 26(1) A43C(1) O'R DDEDDF LOTERI GENEDLAETHOL AYB 1993

Yn achos Gogledd Iwerddon, bydd y Cronfeydd yn ystyried y materion canlynol wrth benderfynu i ba unigolion, ar gyfer pa ddibenion ac o dan ba amodau y bydd y Cronfeydd yn dosbarthu unrhyw arian o dan adran 25(1):

A. Yr angen i gadw mewn cof fuddiannau Gogledd Iwerddon gyfan a buddiannau a maint cymharol y boblogaeth yng ngwahanol rannau Gogledd Iwerddon.

B. Yr angen i fynd i'r afael ag amddifadedd, hyrwyddo goddefgarwch a chynhwysiad cymdeithasol.

C. Yr angen i gyfrannu tuag at leihau tlodi.

Bydd Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol yn ystyried y materion canlynol wrth benderfynu i ba unigolion, ar gyfer pa ddibenion ac o dan ba amodau y bydd y Cronfeydd yn dosbarthu unrhyw arian o dan adran 25(1) yng Ngogledd Iwerddon; a bydd y Gronfa Cyfleoedd Newydd, yn unol ag adran 43C(1), yn dosbarthu arian o dan adran 25(1) mewn perthynas â Gogledd Iwerddon i brosiectau sydd â'r nod o gyflawni un neu fwy o'r canlyniadau canlynol:

A. Pobl yn cael y cyfle i gyrraedd eu llawn botensial.

B. Pobl yn gallu gweithio o fewn eu cymunedau er mwyn sicrhau newidiadau positif.

C. Perchnogaeth gymunedol ar amgylcheddau gwell a mwy diogel mewn ardaloedd trefol ac yng nghefn gwlad.

D. Gwell iechyd corfforol a meddyliol i bawb.

O safbwynt Gogledd Iwerddon, bydd y Cronfeydd yn cymryd i ystyriaeth yr angen i sicrhau y cyflawnir un neu fwy o'r blaenoriaethau canlynol wrth benderfynu i ba unigolion, ar gyfer pa ddibenion ac o dan ba amodau y bydd y Cronfeydd yn dosbarthu unrhyw arian o dan adran 25(1):

A. Gwella sgiliau hanfodol er mwyn cwrdd ag anghenion cymdeithasol ac economaidd.

B. Cynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu o fewn y gymuned.

C. Adeiladu grym cymunedol.

D. Cynyddu cyfle ar gyfer gwirfoddoli a chymryd rhan o fewn eu cymunedau eu hunain ac ar y cyd â chymunedau eraill.

E. Sefydlu partneriaethau cymunedol a gwirfoddol/statudol.

F. Gwella cyfleusterau, mynediad a gwasanaethau ar gyfer y gymuned.

G. Cynyddu cyfraniad y gymuned tuag at ddiogelu, adfer a chynnal yr amgylchedd mewn ardaloedd trefol a chefn gwlad.

H. Cynorthwyo unigolion a chymunedau i ddatblygu sgiliau i lunio gwell dewisiadau ynglŷn â'u ffordd o fyw.

I. Hyrwyddo iechyd meddwl a lles emosiynol ar lefel unigol a chymunedol.

Cyfeiriadau Polisi Interim Newydd – Alban

CYFARWYDDYD A RODDWYD O SAFBWYNT YR ALBAN I FWRDD ELUSENNAU'R LOTERI GENEDLAETHOL A'R GRONFA CYFLEOEDD NEWYDD DAN ADRANNAU 26(1) A 43C(1) O'R DDEDDF LOTERI GENEDLAETHOL AYB.1993

Yn achos yr Alban, bydd y Cronfeydd yn cymryd y materion canlynol i ystyriaeth wrth benderfynu i ba unigolion, ar gyfer pa ddibenion ac o dan ba amodau y bydd y Cronfeydd yn dosbarthu arian o dan adran 25(1):

A. Yr angen i ystyried buddiannau'r Alban yn ei chyfanrwydd, buddiannau gwahanol rannau o'r Alban a maint cymharol y boblogaeth yn y gwahanol rannau o'r Alban a'r posibiliadau o ran lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol yn y gwahanol rannau o'r Alban.

B. Y flaenoriaeth o fynd i'r afael ag amddifadedd a'r angen i roi sylw i anghyfartaledd.

C. Yr angen i weithredu o fewn cyd-destun polisi penodol yr Alban, gan ychwanegu gwerth lle bo hynny'n berthnasol i strategaethau a gweithgareddau dan ofal Senedd yr Alban a phartneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys y sectorau gwirfoddol a chymunedol, cyrff cyhoeddus eraill a'r sector preifat.

Bydd Bwrdd Elusennau'r Loteri Cenedlaethol yn ystyried yr angen i sicrhau bod un neu ragor o'r canlyniadau canlynol yn cael eu cyrraedd wrth benderfynu i ba unigolion, ar gyfer pa ddibenion ac o dan ba amodau y dosberthir unrhyw arian o'r Cronfeydd iddynt o dan adran 25(1) yn yr Alban; a bydd y Gronfa Cyfleoedd Newydd, yn unol ag adran 43C(1), yn dosbarthu arian o dan adran 25(1) yn yr Alban i brosiectau sydd â'r nod o gyflawni un neu ragor o'r canlyniadau canlynol:

A. Bod pobl yn derbyn gwell cyfleoedd mewn bywyd.

B. Bod cymunedau yn gryfach ac yn fwy diogel ac yn cydweithio er mwyn datrys anghydraddoldebau.

C. Bod gan bobl wasanaethau ac amgylcheddau gwell a mwy cynaladwy.

D. Bod pobl a chymunedau yn mwynhau gwell iechyd.

O safbwynt yr Alban, bydd y Cronfeydd yn ystyried yr angen i sicrhau y cyrhaeddir un neu ragor o'r blaenoriaethau canlynol wrth benderfynu i pa unigolion, ar gyfer pa ddibenion ac yn unol â pha amodau y dosberthir arian o dan adran 25(1):

A. Datblygu gofal plant a darpariaeth chwarae i blant o bob oed, sef darpariaeth o ansawdd da sydd o fewn cyrraedd iddynt;

B. Cynyddu hyder a hyrwyddo sgiliau bywyd ymysg plant a phobl ifanc, gan gynnwys drwy weithgareddau diwylliannol a gweithgareddau hamdden;

C. Cynyddu cyfleoedd o gael gwaith sefydlog;

D. Mynd i'r afael ag eithrio ar sail arian a dyled;

E. Darparu cyfleoedd dysgu gydol oes;

F. Cefnogi rhwydweithiau cymunedol;

G. Cryfhau gweithgareddau cymunedol a gwirfoddol;

H. Adeiladu'r gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a datblygol, yn cynnwys hyrwyddo cyfraniad gan bobl ifanc tuag at fywyd eu cymunedau a thuag at lunio penderfyniadau sydd yn effeithio arnynt hwy a'u cymunedau;

I. Cefnogi cymunedau i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac i fynd i'r afael ag effeithiau gwahaniaethu ac aflonyddu;

J. Creu cyfleoedd ar gyfer datblygu gwerthoedd cyffredin a chymunedau cynhwysol ar lefel leol;

K. Sicrhau cymunedau sydd yn fwy diogel, yn gryfach ac yn rhydd oddi wrth ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd;

L. Cefnogi adfywio dan arweiniad y gymuned;

M. Gwella amgylcheddau cymunedol, yn cynnwys amgylcheddau hanesyddol a mannau gwyrdd;

N. Gwella mynediad at wasanaethau o fewn cymunedau gwledig;

O. Hyrwyddo perchnogaeth a defnydd tir o fewn y gymuned;

P. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r amgylchedd ac arfer da;

Q. Cefnogi a datblygu dulliau cymunedol o weithredu tuag at fioamrywiaeth a thuag at fwyd ac ynni cynaliadwy;

R. Gwella iechyd a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ym maes iechyd - yn arbennig trwy wella cyfleoedd ar gyfer bwyta'n iachach, gweithgareddau corfforol ac ymateb i anghenion iechyd y bobl ifanc;

S. Datblygu dulliau newydd o wella iechyd meddwl a lles;

T. Canfod a chefnogi arfer da o safbwynt hyrwyddo a gwella iechyd yn y gymuned;

U. Cefnogi gwaith sydd yn hyrwyddo'r berthynas rhwng iechyd a lles ac adfywio ar lefel ehangach o fewn y gymuned.

Atodiad B
Themâu a chanlyniadau

Lloegr

Themâu

- Dysgu a chreu cyfleoedd o fewn y gymuned.
- Hyrwyddo cydlyniad a diogelwch yn y gymuned.
- Hyrwyddo lles.

Canlyniadau

Canlyniad 1:	Mae gan bobl well cyfleoedd mewn bywyd, yn cynnwys gwell mynediad at hyffordiant ac at ddulliau o ddatblygu er mwyn gwella'u sgiliau bywyd.
Canlyniad 2:	Cymunedau cryfach, gyda dinasyddion mwy bywiog yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn mynd i'r afael â'u problemau.
Canlyniad 3:	Gwell amgylcheddau yn y trefi ac yng nghefn gwlad, y mae'n haws i gymunedau gael mynediad iddynt a'u mwynhau.
Canlyniad 4:	Pobl a chymunedau sydd yn iachach ac yn fwy bywiog.

Cymru

Themâu

- Dysgu yn y gymuned a chreu cyfleoedd.
- Hyrwyddo cydlyniad a diogelwch o fewn y gymuned.
- Hyrwyddo lles.

Canlyniadau

Canlyniad 1:	Pobl o bob oed yn meddu ar y sgiliau a'r addysg i ymateb i heriau'r gymdeithas gyfoes.
Canlyniad 2:	Pobl yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau cymunedau cryfach, cyfiawnder cymdeithasol a gwell amgylcheddau yn y trefi ac yng nghefn gwlad.
Canlyniad 3:	Pobl a chymunedau iachach a mwy bywiog yn gorfforol.

Gogledd Iwerddon

Themâu

- Dysgu a chreu cyfleoedd o fewn y gymuned.
- Hyrwyddo cydlyniad a diogelwch o fewn y gymuned.
- Hyrwyddo lles.

Canlyniadau

Canlyniad A:	Mae gan bobl y gallu i gyrraedd eu potensial llawn.
Canlyniad B:	Gall pobl gyfranogi yn weithredol yn eu cymunedau er mwyn sicrhau newidiadau positif.
Canlyniad C:	Y gymuned yn berchen ar amgylcheddau gwell a mwy diogel mewn trefi ac yng nghefn gwlad.
Canlyniad D:	Gwell iechyd i bawb, yn gorfforol a meddyliol.

Yr Alban

Themâu

- Dysgu a chreu cyfleoedd o fewn y gymuned.
- Hyrwyddo cydlynu a diogelwch yn y gymuned.
- Hyrwyddo lles.

Canlyniadau

Canlyniad 1:	Mae gan bobl well cyfleoedd mewn bywyd.
Canlyniad 2:	Mae cymunedau'n fwy diogel ac yn gryfach ac yn fwy abl i weithio gyda'i gilydd er mwyn goresgyn anghydraddoldebau.
Canlyniad 3:	Mae gan bobl wasanaethau ac amgylcheddau gwell a mwy cynaliadwy.
Canlyniad 4:	Mae pobl a chymunedau yn iachach.